


Cynllun Datblygu Lleol

Bro Morgannwg


2011 - 2026

Cynllun Datblygu Lleol



Adroddiad Monitro Blynyddol 3^{ydd}
Ebrill 2020 i Mawrth 2021

Hydref 2021



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026

3YDD ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

HYDREF 2021

CYFNOD MONITRO 1 EBRILL 2020 I 31 MAWRTH 2021.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill ar gais e.e. ffont mwy.

TABL CYNNWYS

1.	Crynodeb Gweithredol	1
1.1.	Cyflwyniad	1
1.2.	Canfyddiadau Allweddol y DRYDEDD Broses Fonitro Flynyddol (1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021).....	2
2.	Cyflwyniad	12
2.2.	Y Gofyniad i Fonitro'r CDLI	13
2.3.	Fframwaith Monitro CDLI Bro Morgannwg	16
2.4.	Newidiadau Cyd-destunol	18
2.5.	Newidiadau Deddfwriaethol	19
2.6.	Polisi Cynllunio Cenedlaethol.....	21
2.7.	Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau).....	24
2.8.	Canllawiau Cynllunio.....	25
3.	Cyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol	26
3.1.	Dylanwadau Cenedlaethol	26
3.2.	Y Cyd-destun Rhanbarthol.....	27
3.3.	Cyd-destun Lleol.....	29
3.4.	Tueddiadau Economaidd Cyffredinol	33
3.5.	Crynodeb Cyd-destunol	42
4.	Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd	43
4.3.	Sgoriau Goleuadau Traffig Perfformiad Polisi	44
4.4.	Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	45
5.	Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddi Polisi.....	46
1.	Cymunedau Cynaliadwy	46
2.	Newid yn yr Hinsawdd	54
3.	Trafnidiaeth	59
4.	Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	71
5.	Cyfleusterau Cymunedol	84
6.	Manwerthu.....	95
7.	Tai	109
8.	Economi	121
9.	Twristiaeth.....	129
10.	Adnoddau Naturiol.....	131
6.	Fframwaith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Dadansoddiad Gwrthrychol	144
6.1.	Y Gofyniad ar gyfer Monitro'r AC	144
6.2.	Methodoleg Monitro'r AC	144
7.	Arfarniad Monitro Cynaliadwyedd CDLI.....	146

1. Tai	146
2. Cyfleusterau Lleol.....	149
3. Mynediad i Bawb	152
4. Amddifadedd	153
5. Ysbryd Cymunedol	156
6. Newid yn yr Hinsawdd	158
7. Gwastraff.....	168
8. Defnydd Tir.....	169
9. Asedau Amgylcheddol.....	171
10. Ansawdd datblygiad newydd	182
11. Treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol	183
12. Trafnidiaeth a hygyrchedd	183
13. Cyflogaeth	187
14. Manwerthu.....	191
15. Twristiaeth.....	194
8. Casgliadau ac Argymhellion.....	199
8.1. Casgliadau Fframwaith Monitro'r CDLI.....	199
8.2. Casgliadau Monitro'r AC	203
8.3. Argymhellion:	203

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. CYFLWYNIAD

- 1.1.1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 (CDLI) ar 28 Mehefin 2017. Mae Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro gweithrediad eu CDLlau mabwysiedig drwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
- 1.1.2. Paratwir yr AMB yn unol â'r Fframwaith Monitro sydd wedi'i gynnwys yn y CDLI mabwysiedig ar dudalen 129 (adran 9). Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys cyfres o ddangosyddion a thargedau a bennir yn erbyn pwyntiau sbardun i ddangos a yw un rhan o'r cynllun yn methu â chyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae pwyntiau sbardun wedi'u cynnwys i asesu ar ba lefel y mae polisi wedi ymwahanu oddi wrth y targed monitro gyda'r bwriad o nodi nad yw'r polisi'n cael ei weithredu neu fod angen ei ddiwygio. Mae llawer o'r dangosyddion yn cynnwys targedau chwemisol neu'n cyfeirio at ddyddiadau targed priodol ar gyfer datblygiadau / cyfleusterau penodol i asesu perfformiad y Cynllun.
- 1.1.3. Yr AMB yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI ac ar gyfer sefydlu a oes angen unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cynllun. Prif swyddogaeth yr AMB yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisiâu'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae AMB hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr awdurdod ac yn helpu i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.
- 1.1.4. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLI) (Cymru) 2005 a Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020) (LICD) yn rhoi canllawiau ar gynnwys yr AMB a phryd y dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn unol â Rheoliadau'r CDLI a chanllawiau Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd AMB cyntaf y Cyngor i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau o 31 Hydref 2019, gan gwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Dyma'r trydydd AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Bro Morgannwg ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.
- 1.1.5. Dylid nodi bod yr AMB yn cynnwys rhai dangosyddion monitro ychwanegol nad oeddent yn y fframwaith monitro CDLI mabwysiedig. Deilliodd y dangosyddion newydd hyn o weithredoedd AMB blaenorol a newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, nid yw rhai o ddangosyddion monitro gwreiddiol y CDLI yn berthnasol mwyach gan fod y targedau monitro wedi'u cyrraedd a/neu fod prosiectau wedi'u cwblhau. Mewn achosion o'r fath, mae cyfeiriad wedi'i gynnwys yn yr AMB at yr effaith hon.
- 1.1.6. Paratowyd yr AMB yn ystod y pandemig COVID 19. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i gasglu'r data monitro perthnasol ac mae'n bwriadu cyflwyno'r trydydd

AMB hwn i Lywodraeth Cymru erbyn y 31 Hydref 2021. Er bod rhai o effeithiau cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol y pandemig byd-eang yn glir, mae'r effeithiau tymor hwy yn fwy ansicr ar hyn o bryd. Yn anochel, bydd y rhain yn dod yn fwy amlwg mewn AMBau dilynol.

1.2. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL Y DRYDEDD BROSES FONITRO FLYNYDDOL (1 EBRILL 2020 HYD AT 31 MAWRTH 2021)

DYLANWADAU CYD-DESTUNOL

- 1.2.1. Mae Adran 3 o'r AMB yn rhoi gwybodaeth am y newidiadau cyd-destunol amrywiol sydd wedi digwydd ers 1 Ebrill 2020 ac a allai fod wedi effeithio ar nodau ac amcanion y CDLI. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol newydd / diwygiedig a/neu gynlluniau, polisiâu a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol a allai effeithio ar gyflawni'r strategaeth CDLI. Yn ogystal, mae'r adran hefyd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa economaidd gyffredin dros y cyfnod monitro ynghyd â gwybodaeth am gynnydd ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) allweddol. Lle y bo'n briodol, crynhoir unrhyw oblygiadau posibl i'r CDLI.
- 1.2.2. Efallai y bydd gan rai o'r ffactorau allanol a nodwyd oblygiadau i'r CDLI yn y tymor hwy. Felly, caiff effaith y ffactorau a nodwyd ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol ar nodau ac amcanion y CDLI eu hystyried mewn AMBau yn y dyfodol. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi CDLI yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi er hwylustod ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma.

MONITRO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - DADANSODDI POLISI

- 1.2.3. Mae adran 5 yn archwilio sut mae polisiâu strategol y CDLI a pholisiâu rheoli twf a rheoli datblygu cysylltiedig yn perfformio yn erbyn targedau monitro'r Cynllun. Mae hefyd yn ystyried a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae system sgorio 'goleuadau traffig' wedi'i defnyddio fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisiâu'r Cynllun ac i roi trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi fel a ganlyn:

Parhau i Fonitro (Gwyrdd)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol nid oes achos adolygu.
Angen Hyfforddiant (Glas)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd a bod angen rhagor o hyfforddiant ar swyddogion neu aelodau.
Canllawiau Cynllunio Atodol yn Ofynnol a Briffiau Datblygu (Porffor)
Gall dangosyddion awgrymu bod angen darparu canllawiau pellach yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn y Cynllun. Yn ogystal, os na fydd

safleoedd yn dod i'r amlwg fel y rhagwelwyd; bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â datblygwyr / tirlfeddianwyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol i helpu i ddechrau'r broses ddatblygu

Ymchwil Polisi (Melyn)

Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, bydd angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach i hyn. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill a gallai ystadegau cenedlaethol fod yn angenrheidiol lle y bo'n briodol.

Adolygiad Polisi (Ambr)

Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu â rhoi'r strategaeth ar waith, bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Gallai fod angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach cyn cadarnhau penderfyniad i gynnal adolygiad ffurfiol.

Adolygu'r Cynllun (Coch)

Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygu'r Cynllun yn ffurfiol. Bydd angen ystyried yr opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun yn llawn ar ôl ystyriaeth ddifrifol.

PRIF GANFYDDIADAU

- 1.2.4. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau allweddol y ^{trydydd} AMB yn gadarnhaol. Mae'r holl ddangosyddion 'craidd' yn gadarnhaol (gwyrdd), ac mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion 'lleol' yn gadarnhaol (gwyrdd) sy'n nodi bod polisiâu perthnasol y CDLI yn cyflawni eu hamcanion a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er gwaethaf hyn, mae'r CDLI mabwysiedig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn unol â Rheoliad CDLI 41 a bydd y gwaith yn dechrau ar y CDLI Newydd yn 2022.
- 1.2.5. Mae angen ymchwil bellach ar gyfer dangosydd 8.3 (cyflogaeth). Mae'r gwaith o ddatblygu tir cyflogaeth lleol newydd ym Mro Morgannwg yn is na'r disgwyl yn wreiddiol ond mae'r duedd hon yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd bresennol. Er gwaethaf hyn, rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar ddau safle cyflogaeth lleol a bydd y data hwn yn cael ei ystyried yn yr AMB nesaf. Mae gan safleoedd cyflogaeth lleol presennol gyfraddau defnydd da hefyd.
- 1.2.6. Mae hyfforddiant aelodau yn dal heb ei gyflawni mewn perthynas â dangosydd 7.6 ac nid yw'r Cyngor wedi gallu bwrw ymlaen â rhywfaint o'r CCA newydd fel y bwriadwyd yn yr AMB diwethaf oherwydd cyfyngiadau COVID 19 a materion corfforaethol eraill sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r CCA drafft newydd i gyd wedi'u paratoi a rhagwelir y byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn yr Hydref yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet.
- 1.2.7. Mae'r trydydd AMB yn cynnwys cyfanswm o 60 o ddangosyddion a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiâu. Caiff y dangosyddion eu categoreiddio yn ôl amcanion y Cynllun ac maent yn cynnwys y canlynol:

Cymunedau Cynaliadwy, Newid yn yr Hinsawdd, Trafnidiaeth, yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol, Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Tai, yr Economi a Chyfoeth Naturiol. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r AMBau blaenorol yn y tabl isod. Dylid nodi bod cyfanswm nifer y dangosyddion yn amrywio rhwng AMBau. Mae hyn o ganlyniad i nodi dangosyddion newydd yn yr AMBau e.e. yr angen am CCA newydd a dileu rhai dangosyddion monitro a ddisodlwyd megis 7.1.

TABL1: CANFYDDIADAU ALLWEDDOL - DANGOSYDDION CRAIDD A LLEOL

Asesu	Cam Gweithredu	AMB 1: 2018 - 2019 Nifer y dangosyddion o fewn y Categori	AMB 2: 2019 - 2020 Nifer y dangosyddion o fewn y Categori	AMB 3: 2020 – 2021 Nifer y dangosyddion o fewn y Categori
Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod polisiau CDLI yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.	Nid oes angen cymryd camau pellach. Parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.	60	59	59
Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiau CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd.	Mae angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.	1	0	0
Lle mae dangosyddion yn awgrymu'r angen am ganllawiau pellach yn ogystal â'r hyn a nodwyd eisoes yn y Cynllun.	Efallai y bydd angen Canllawiau Cynllunio Atodol a/neu Friffiau Datblygu.	3	0	0
Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiau'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod.	Efallai y bydd angen rhagor o ymchwilio a chymharu ag ACLI cyfagos.	2	2	1
Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod polisiau CDLI yn methu.	Efallai y bydd angen adolygiad polisi ar ymchwil bellach.	0	0	0
Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw'r strategaeth CDLI yn cael ei gweithredu.	Ar ôl cadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu lawn.	0	0	0

TAI (GAN GYNNWYS TAI FFORDDIADWY)

- 1.2.8. Mae Bro Morgannwg yn parhau i fod yn lle deniadol i fyw ynddo ac mae'r galw am eiddo ledled yr awdurdod yn parhau'n uchel. Rhwng 1 Ebrill 2011 ac 1 Ebrill 2021, cwblhawyd cyfanswm o 5,257 o anheddau ym Mro Morgannwg ac roedd 3,635 ohonynt yn anheddau marchnad cyffredinol yn erbyn targed AMB 2021 o 3,872.
- 1.2.9. O ran tai fforddiadwy, sicrhawyd cyfanswm o 1,622 ym mis Ebrill 1 2021, ychydig yn is na tharged AMB 2021 o 1,646 o anheddau fforddiadwy.
- 1.2.10. O gyfanswm yr anheddau a gwblhawyd, roedd 3914 o anheddau ar bolisi CDLI dyrannu safleoedd tai a ddyrannwyd gan MG2, sef 365 o anheddau islaw'r targed AMB o 4,279 o anheddau i'w cwblhau ar safleoedd tai CDLI a nodwyd yn y dangosydd 1.2. Er gwaethaf hyn, mae diddordeb datblygwyr yn parhau i fod yn gryf o fewn yr awdurdod, fel y nodwyd gan nifer y dyraniadau sydd wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar neu sy'n destun ceisiadau cynllunio sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.
- 1.2.11. Yn dilyn dirymu Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai NCT 1 a chyhoeddi'r Llawlyfr Cynllun Datblygu newydd (LICD) ym mis Mawrth 2020, diweddarodd y Cyngor fframwaith monitro'r CDLI gyda dangosyddion tai newydd (7.1.1 a 7.1.2). Mae'r LICD yn nodi y dylai Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â CDLI mabwysiedig cyn cyhoeddi'r LICD diweddaraf fonitro'r modd y caiff tai eu darparu yn erbyn y gofyniad cyfartalog blynyddol. Mae'r data monitro yn dangos bod y Cyngor wedi darparu 5,257 o anheddau hyd yma sy'n uwch na tharged llwybr 2021 o 5,103 o anheddau.
- 1.2.12. Mae cyfanswm nifer yr anheddau a gwblhawyd yn cyfateb i gyfartaledd blynyddol o 525.7 o anheddau yn erbyn cyfartaledd blynyddol gofyniad 630.66 i gyflawni gofyniad tai'r CDLI o 9,460 o anheddau erbyn 2026. Er bod cyfanswm nifer yr anheddau yn is na'r cyfartaledd o 10 mlynedd, nodir bod cwblhau anheddau ar gyfer 4 o'r 5 mlynedd blaenorol wedi rhagori ar y cyfartaledd blynyddol ac felly mae'r ddarpariaeth tai ers mabwysiadu'r cynllun wedi bod yn unol â'r llwybr yn gyffredinol.

CYFLOGAETH

- 1.2.13. Ers dechrau cyfnod y Cynllun, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 23.59% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd sydd ychydig yn uwch na tharged monitro 2020 sef 20%. Y targed nesaf yw 2022 sy'n anelu at sicrhau caniatâd cynllunio ar 44% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd. Dylid nodi bod dau gais cynllunio (2019/01421/RES (MG9 (1) [yn rhannol] a 2020/01367/RG3 (MG9 (4) [Plot C yn rhannol]) sy'n cyfateb i 9.225ha wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar ym mis Ebrill 2021. Er bod y rhain y tu allan i'r trydydd cyfnod AMB, mae hyn yn helpu i ddangos bod dyraniadau cyflogaeth yn cael eu cyflwyno'n gyson yn ystod cyfnod y cynllun ac mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed monitro nesaf.
- 1.2.14. Er bod swm sylweddol o dir eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth strategol yn unol â'r targedau monitro, mae'r gwaith o ddatblygu dyraniadau cyflogaeth lleol wedi bod yn arafach. Ystyrir bod hyn yn gysylltiedig

â'r hinsawdd economaidd bresennol ac mae'r AMB yn argymhell ymchwil bellach i'r mater hwn. Mae nifer y swyddi a ragwelir ar y safleoedd cyflogaeth strategol yn cyd-fynd â'r targed monitro drwy ddatblygiadau a ganiateir yn Sain Tathan ac i'r de o gyffordd 34 yr M4, Hensol. Mabwysiadwyd y CCA newydd ar Faes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth ym mis Rhagfyr 2019 ac mae'r Cyngor wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'i hasiant ar fabwysiadu briff datblygu newydd ar gyfer safle'r Porth ym Mro Tathan. Mae'r Cyngor wedi paratoi CCA drafft newydd ar dir a safleoedd cyflogaeth a fydd yn destun ymgynghoriad yn yr hydref. Mae COVID 19 hefyd yn debygol o gael effaith ar dir a safleoedd cyflogaeth wrth symud ymlaen a bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyflogaeth er mwyn canfod ei heffeithiau.

MANWERTHU

- 1.2.15. Mae'r dangosyddion monitro manwerthu yn dangos bod gostyngiad parhaus wedi bod yn nifer y mannau manwerthu yng nghanol trefi a'r ardal, sy'n ostyngiad o 5.05% ers 2017. Fodd bynnag, bu cynnydd mewn mannau llawr masnachol eraill fel mannau hamdden a llawr swyddfa yng nghanol y dref a'r ardal. Mae hyn yn dangos bod canolfannau manwerthu trefi a dosbarth yn arallgyfeirio o'r defnyddiau manwerthu A1 traddodiadol yn rhannol fel ymateb i arferion siopa sy'n newid. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i bolisi cynllunio cenedlaethol sydd hefyd yn hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel canolfannau ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a'r canolbwynt ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Mae'r trothwyon a nodir ym mholisiau MG14 ac MG15 hefyd wedi'u rhagori mewn rhai achosion fel y nodir yn nangosyddion monitro 6.2 a 6.3. Dylid nodi bod hyn yn fwy amlwg yn y canolfannau manwerthu lleol a chymdogaethau. Mae'r cynnydd mewn defnyddiau an-fanwerthu ym mhob canolfan fanwerthu yn adlewyrchu eu rôl newidiol yn genedlaethol a bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol. Mae'r pandemig presennol hefyd yn cael effaith sylweddol ar y sector manwerthu. Mae'r Cyngor wedi paratoi CCA drafft newydd ar fanwerthu fel yr argymhellwyd yn yr AMB cyntaf a rhagwelir y bydd hyn yn destun ymgynghoriad yn yr hydref.

SIPSIWN A THEITHWYR

- 1.2.16. Er nad yw safle sipsiwn a theithwyr parhaol wedi'i nodi eto, mae'r Cyngor wedi parhau i geisio dod o hyd i safle addas i ddiwallu'r angen am sipsiwn a theithwyr hirdymor a nodwyd. Yn dilyn yr alwad gyffredinol aflwyddiannus am safleoedd ymgeisiol a gynhaliwyd yn ystod 2019, mae ymchwiliadau wedi ceisio nodi argaeledd tir ar y farchnad agored, ond mae'r rhain unwaith eto wedi bod yn anghynhyrchiol. Mae'r bwrdd Tai Strategol wrthi'n ystyried y mater ymhellach ac mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor yn cael eu hasesu gan gynnwys dulliau ymchwilio i oresgyn y cyfyngiadau presennol ar y safle ar safle presennol Hayes Road a pharhau i chwilio am safleoedd eraill.

TRAFNIDIAETH

- 1.2.17. Mae fframwaith monitro'r CDLI yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau 6 chynllun trafndiaeth lleol a nodir ym Pholisiau SP7 ac MG16 erbyn 2020. Mae'r targed

monitro hwn eisoes wedi'i ragori ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar nifer o'r cynlluniau eraill. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cynllun parcio a theithio bysiau ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston wedi methu astudiaeth cam 2 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac felly na fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach. Mae gan y cynlluniau sy'n weddill a nodir ym mholisiau SP7 ac MG18 ddyddiad cwblhau targed o 2026 ac maent i gyd ar wahanol gamau ymchwilio neu ddatblygu fel y nodir o dan Ddangosydd 3.1. Cyflwynwyd cynlluniau teithio gyda phob cais cynllunio perthnasol yn unol â'r CCA Cynllun Teithio ac NCT 18.

MONITRO ARFARNIAD CYNALIADWYEDD (AC)

- 1.2.18. Rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwydddebau a Rheoliadau Ewropeaidd perthnasol. Yn hyn o beth, dylai monitro'r CDLI gyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y CDLI drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad Cynaliadwyedd (AAS/AC).
- 1.2.19. Mae'r AC yn helpu i ddangos bod y CDLI yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymegol polisïau. Mae'r AC yn nodi cyfres o amcanion a dangosyddion effaith sylweddol y bwriedir iddynt fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI.
- 1.2.20. Mae Adran 6 yn archwilio perfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AC. Mae hyn yn rhoi datganiad sefyllfa byrdymor ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd ac yn darparu llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol.

CASGLIADAU

- 1.2.21. Mae'r trydydd AMB yn rhoi cymhariaeth â'r data sylfaenol a ddarparwyd gan adroddiadau monitro blaenorol. Y casgliadau allweddol yn y trydydd blwyddyn o adrodd yw bod y rhan fwyaf o bolisiau'r Cynllun yn parhau i berfformio'n dda o ran cyflawni strategaeth y Cynllun a chyflawni'r targedau a nodir yn Fframwaith Monitro'r CDLI mabwysiedig.
- 1.2.22. Mae canllawiau gweithdrefnol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) (gweler tabl 31) yn nodi pum cwestiwn y dylai'r AMB eu hystyried. Mae'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y cwestiynau hyn wedi'u hystyried drwy'r AMB fel rhan o'r dadansoddiad o ddata. Fodd bynnag, er cyflawnder, eir i'r afael â hwy isod:
 - *Pa faterion newydd sydd wedi digwydd yn ardal y cynllun, neu newidiadau i bolisi lleol/cenedlaethol?*
- 1.2.23. Mae Adran 3 o'r AMB yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol newydd / diwygiedig a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol a allai effeithio

ar gyflawni strategaeth y CDLI a/neu seilwaith neu brosiectau allweddol a allai effeithio ar gyflawni amcanion y CDLI.

1.2.24. Er y gallai goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol hyn arwain at oblygiadau i'r CDLI yn y dyfodol, dylid eu hymgorffori a'u hystyried yn llawn mewn AMBau yn y dyfodol. Fel yr argymhellwyd yn yr AMB cyntaf, paratowyd CCA newydd ar gyfer meysydd polisi penodol lle nad yw targedau'n cael eu cyrraedd ac ystyrir bod angen canllawiau pellach e.e. manwerthu.

- *Pa mor berthnasol, priodol a chyfoes yw strategaeth y CDLI a'i pholisïau a'i thargedau allweddol?*

1.2.25. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r broses AMB yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran gweithredu strategaeth ac amcanion y CDLI. Mae Adran 5 yn darparu asesiad manwl o sut mae polisïau allweddol y Cynllun yn perfformio yn erbyn y targedau monitro a nodwyd. Mewn rhai achosion, nid yw'r targed monitro wedi'i gyrraedd ond ystyriwyd o hyd nad oedd angen gweithredu ar hyn o bryd ac y dylid monitro ac adolygu'r dangosydd yn yr AMB nesaf. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i lunio barn wybodus am berfformiad y Cynllun yn ystod y cyfnod hwn. Mae Tabl 4 (tudalen 4) yn rhoi trosolwg o effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro hwn gan ddefnyddio'r system sgorio 'goleuadau traffig' a ddefnyddir yn yr asesiad ac mae'n dangos bod angen monitro'r mwyafrif o ddangosyddion ymhellach. Dim ond 1 dangosydd sy'n ymwneud â datblygu tir cyflogaeth lleol sydd angen ymchwil polisi pellach. Darperir gwybodaeth am hyn yn AMB y flwyddyn nesaf a bydd yn llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd.

- *Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu neu eu gohirio mewn perthynas â disgwyliadau'r cynllun yn y ddau le ac yn y rhaglen raddol (fel y nodir yn y trywydd).*

1.2.26. Mae dangosydd monitro CDLI 1.2 yn adran 5 yn archwilio cyfanswm nifer yr unedau tai a gwblhawyd ar y safleoedd tai a ddyrannwyd a nodir ym mholisi MG2. Ar 1 Ebrill 2021, roedd 3,914 o anheddau wedi'u cwblhau ar y safleoedd a ddyrannwyd sy'n is na'r targed o 4,279 o anheddau ar gyfer y cyfnod monitro cyfredol. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i'r targed monitro ar gyfer y dangosydd hwn gael ei gyrraedd ac mae monitro dyraniadau CDLI yn dangos bod diddordeb datblygwyr yn parhau'n gryf o fewn yr awdurdod.

1.2.27. O ran cyflawni dyraniadau tai Polisi MG2, yn 1 Ebrill 2021, roedd 34 o'r 48 safle (71%) wedi cael caniatâd cynllunio ac o'r safleoedd hyn roedd 30 naill ai'n gyflawn neu'n cael eu hadeiladu. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau cyn-ymgeisio gyda phartïon â diddordeb ar sawl un o'r safleoedd sy'n weddill.

- *Beth yw graddfa'r amrywiant o'r gyfradd adeiladu flynyddol a chronnol ddisgwyliedig? A oes tuedd 2 flynedd o dangyflawni (gorffeniadau blynyddol nid nifer yr AMBau a gyflwynwyd)?*


1.2.28. Mae'r CDLI yn nodi gofyniad tai o 9,460 o anheddau dros gyfnod y cynllun 2011-2026, sy'n cyfateb i ofyniad tai cyfartalog o 630.66 o anheddau y flwyddyn. Mae

adran 5 yn archwilio lefel flynyddol y tai a gwblhawyd mewn perthynas â'r gofyniad cyfartalog blynyddol. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys cymhariaeth rhwng darparu tai a'r trywydd tai a baratowyd fel tystiolaeth yn yr Archwiliad CDLI.

1.2.29. Mae'r data monitro yn dangos bod y CDLI, rhwng 1 Ebrill 2011 a 1 Ebrill 2021, wedi darparu 5257 o anheddau sy'n cyfateb i ddarpariaeth gyfartalog flynyddol o 525.7 o anheddau y flwyddyn yn hytrach na 630.66. Mae hyn 17% yn is na tharged anheddau cronol 2021, sef 6,306.

1.2.30. Mae'r gyfradd adeiladu flynyddol is hon yn adlewyrchu'n bennaf yr effaith y mae'r dirwasgiad economaidd byd-eang wedi'i chael ar y diwydiant tai yn genedlaethol a arweiniodd at gyfradd is o dai wedi'u cwblhau o fewn yr awdurdod o'i gymharu â'r hyn a brofwyd cyn y dirwasgiad. Yn ogystal, yn 2011, nid oedd y CDLI wedi'i fabwysiadu ac felly nid oedd argaeledd tir tai ym Mro Morgannwg wedi'i sefydlu'n llawn.

1.2.31. Mae'r graff isod yn dangos y twf yn y ddarpariaeth tai ym Mro Morgannwg ers 2011, gan dynnu sylw at gynnydd blynyddol cyson yn nifer y tai a gwblhawyd o fewn yr awdurdod sy'n adlewyrchu'r adferiad economaidd cenedlaethol ynghyd ag argaeledd tir tai y gellir ei gyflawni o fewn yr awdurdod. Ar gyfer y blynyddoedd 2016-17, 2017-18, 2019-20 a 2020-21 mae'r tabl yn dangos bod cwblhau anheddau tai wedi rhagori ar y gofyniad cyfartalog blynyddol.



1.2.32. Mae'r graff hefyd yn dangos y rhagwelir y bydd y broses o gwblhau'r 5 mlynedd nesaf yn is na'r gofyniad cyfartalog ym mlynnyddoedd 2021 i 2023 cyn cynyddu'n uwch na'r gofyniad cyfartalog blynyddol yn ystod 3 blynedd olaf y cynllun. Erbyn 2026 rhagwelir y bydd y CDLI wedi darparu o leiaf 8,681 o anheddau sy'n is na'r 9,460 o anheddau a ddarperir yn y Cynllun, unwaith eto oherwydd cyfraddau

cyflenwi isel yn bennaf o fewn blynyddoedd cynnar y Cynllun yn hytrach na methiant i gyflawni'r dyraniadau tai.

1.2.33. Er mwyn bodloni'r ddarpariaeth o 9460 o anheddau erbyn 2026 byddai'n ei gwneud yn ofynnol i 840 o anheddau y flwyddyn gael eu darparu dros y 5 mlynedd sy'n weddill o'r cynllun y gellid eu gwireddu pe bai datblygwyr a pherchnogion safleoedd yn hwyluso'r gwaith o ddarparu safleoedd ac y byddai'n adlewyrchu lefelau'r datblygiad a gyflwynwyd yn 2016-17 a 2019-20 (a'i ragfynegi yn 2023-24). Yn unol â hynny, er gwaethaf y cyfraddau datblygu isel o fewn rhan gyntaf y Cynllun, ystyrir bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r ddarpariaeth tai a nodwyd.

- *A fu'r gwaith o gyflawni polisiau ac atal datblygiad amhriodol yn effeithiol?*

1.2.34. Mae'r polisiau wedi bod yn effeithiol iawn hyd yma o ran cyflawni polisiau ac annog pobl i beidio â datblygu'n amhriodol fel y nodir yn adran 5. Mae'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys y canlynol:

- *Mae nifer yr anheddau CDLI a ddarperir yn fwy na llwybr tai'r CDLI ar gyfer 2021*
- *49% o'r holl ganiatadau tai newydd ar safleoedd tir llwyd sy'n fwy na tharged CDLI o 38%*
- *Ni chaniatawyd unrhyw hap-ddatblygiadau ar dir GMH yn groes i'r polisiau yn y CDLI*
- *Safleoedd cyflogaeth strategol – mae'r Cyngor wedi rhagori ar darged 2020 ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd targed 2022*
- *Datblygu ynni adnewyddadwy – twf cyson mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy ers yr AMB diwethaf*
- *Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad manwerthu/hamdden mawr y tu allan i ffiniau sefydledig canolfannau tref ac ardal*
- *Mae cyfradd swyddi gwag ardaloedd siopa sylfaenol ym mhob canol tref a dosbarth wedi gostwng*
- *Roedd Cynllun Teithio yn cyd-fynd â'r holl geisiadau cynllunio perthnasol.*
- *Cynnydd net mewn mannau agored*
- *Cynnydd sylweddol o ran darparu cyfleusterau addysg newydd. targedau 2024 ar y trywydd iawn i'w cyrraedd.*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad a arweiniodd at golled annerbyniol o gyfleusterau cymunedol*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad ar orlifdiroedd C1 ac C2 nad oeddent yn bodloni profion NCT 15*

- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad yn groes i gyngor Cadw na CNC*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad yn groes i Bolisi MG 17 (Ardaloedd Tirwedd Arbennig)*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad yn groes i Bolisi MG 18 (Lletemau Glas)*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad yn groes i Bolisi MG 27 (Arfordir Treftadaeth Morgannwg)*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar SoDdGA neu SoBCN*
- *Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf GARhD yn cadarnhau bod gan yr awdurdod fanc tir 35 i 38 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir sy'n sylweddol uwch na'r targed o 10 mlynedd*
- *Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad o fewn clustogfa mwynau yn groes i Bolisi MG23*

1.2.35. Er bod rhai meysydd lle mae angen rhagor o waith a / neu ymchwiliadau, yn gyffredinol, mae'r AMB yn dangos bod y CDLI yn parhau i fod yn llwyddiannus i raddau helaeth o ran cyflawni ei amcanion. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio'n ddiweddar ar adolygiad o'r CDLI mabwysiedig yn unol â Rheoliad CDLI 41 o Reoliadau TCPA (CDLI) (CdLI) 2005 (fel y'i diwygiwyd).

1.2.36. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r CDLI presennol drwy baratoi AMBau olynol a defnyddir y canfyddiadau i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLI newydd. Er na fydd effaith lawn pandemig y coronafeirws yn hysbys am beth amser, mae'n sicr y bydd yn cael effaith ar draws cymdeithas ac yn newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio am gryn amser. Mae'n debygol y bydd angen ymyrraeth polisi ar lefel genedlaethol a lleol ar rai o'r effeithiau, a bydd angen ystyried materion o'r fath yn llawn wrth lunio polisiâu a pharatoi a monitro cynlluniau yn y dyfodol.

2. CYFLWYNIAD

- 2.1.1. Cafodd CDLI 2011-2026 Bro Morgannwg ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017 a dyma'r brif ddogfen cynllunio defnydd tir ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ym Mro Morgannwg. Mae'r CDLI yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a rheoli tir tan 2026. Mae'r CDLI yn cynnwys Fframwaith Monitro sy'n cynnwys targedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad strategaeth y Cynllun, y polisiau a'r dyraniadau yn eu herbyn.
- 2.1.2. Mae Adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) (DCPhG) a'r Rheoliadau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) barhau i adolygu'r holl faterion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu gynllunio ei datblygiad. Mae Adran 76 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
- 2.1.3. Yr AMB yw'r mecanwaith allweddol i asesu'r broses o gyflawni a gweithredu strategaeth y CDLI ac mae'n darparu tryloywder yn y broses gynllunio drwy roi gwybod i randdeiliaid, grwpiau busnes a'r gymuned am effeithiolrwydd ac mae'n nodi unrhyw faterion.
- 2.1.4. Nodir rheoliadau a chanllawiau ar ffurf a chynnwys yr AMB yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3 Mawrth 2020) (LICD).
- 2.1.5. Mae gan yr AMB ddwy brif rôl:
- Ystyried a yw'r polisiau a nodir yn Fframwaith Monitro'r CDLI yn cael eu cyflawni a'u gweithredu'n llwyddiannus; ac
 - Ystyried y Cynllun yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd i benderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun.
- 2.1.6. Mae'r AMB hefyd yn gyfle i'r Cyngor asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei ardal weinyddol. Gall gynorthwyo'r Cyngor i:
- Nodi meysydd llwyddiant;
 - Nodi lle nad yw rhai polisiau'n llwyddo i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd;
 - Nodi bylchau yn y sail dystiolaeth, efallai drwy newid yn yr economi, y mae angen mynd i'r afael â hwy a'u hadlewyrchu yn y CDLI; a
 - Nodi pa gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd i sicrhau bod y CDLI yn cael ei weithredu, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau y mae angen eu gwneud i'r CDLI.
- 2.1.7. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu am y tro cyntaf, yn unol â Rheoliad 41. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu cynnydd wrth weithredu'r polisiau a gwneud addasiadau lle bo angen. Mae'r adolygiad hefyd yn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y CDLI yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn polisi cynllunio

cenedlaethol a dogfennau / deddfwriaeth genedlaethol a rhanbarthol berthnasol eraill. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar yr adolygiad CDLI yn ddiweddar ac mae wrthi'n paratōi'r Adroddiad Adolygu.

- 2.1.8. Ar y cyd â'r prif amcanion hyn, rhaid i'r AMB hefyd ystyried cydymffurfiaeth â'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Paratowyd yr AMB yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd); Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004); a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (2004).
- 2.1.9. Dyma'r trydydd AMB a baratowyd gan y Cyngor ac mae'n seiliedig yn bennaf ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i'r 31 Mawrth 2021. Fe'i paratowyd yn unol â'r Rheoliadau CDLI a'r canllawiau diwygiedig yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) (LICD) a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2020. Dylid nodi bod y cynnwys yn adlewyrchu'r canllawiau a'r gofynion diwygiedig a nodir yn y LICD diwygiedig, yn enwedig mewn perthynas â chwblhau tai a'r trywydd tai.

2.2. Y GOFYNIAD I FONITRO'R CDLL

- 2.2.1. Mae Adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu eu hardaloedd neu gynllunio eu datblygiad.
- 2.2.2. Mae'r materion hyn yn cynnwys:
- Prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal yr awdurdod (gan gynnwys i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal);
 - Y prif ddibenion y defnyddir tir ar eu cyfer yn yr ardal;
 - Maint, cyfansoddiad a dosbarthiad poblogaeth yr ardal;
 - Cyfathrebu, system drafnidiaeth a thraffig yr ardal;
 - Unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion hynny;
 - Unrhyw faterion eraill a ragnodir neu y gall y Cynulliad mewn achos penodol eu cyfarwyddo.
- 2.2.3. Mae rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ACLI gyhoeddi ei AMB ar ei wefan a'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar neu cyn y dyddiad a bennir mewn canllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad.
- 2.2.4. Mae rheoliad 37 yn ei gwneud yn ofynnol i'r AMB nodi polisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu ac ar gyfer pob polisi:
- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
 - Nodi'r camau (os o gwbl) a gymerir i alluogi'r polisi i gael ei weithredu;
 - Archwilio a oes angen diwygio'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.
- 2.2.5. Yn ogystal, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn mynnu bod yr holl fframweithiau monitro yn cynnwys ystod o ddangosyddion fel a ganlyn (mae Tabl

29 yn y LICD yn cyfeirio). Yn unol â'r canllawiau diweddaraf, mae'r dangosyddion hyn wedi'u cynnwys ym mhob AMB dilynol.

Dangosyddion sy'n Ofynnol gan Ddeddfwriaeth	
Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad agored ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Rheoliad CDLI 37. Rhaid i bob AMB gynnwys nifer y tai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored a gwblheir yn flynyddol yn ardal y cynllun.
Dangosyddion Allweddol sy'n Gymwys i bob Cynllun	
Dosbarthiad gofodol datblygiad tai	Monitro nifer y tai a gwblheir bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth dwf a hierarchaeth y setliad.
Lefel <u>flynyddol</u> y tai a gwblheir wedi'i monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (CAFR).	<p>Rhaid monitro'r gwaith blynyddol o gwblhau tai yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Rhagwelir (CAFR) fel y nodir yn y trywydd tai mabwysiedig (gweler Tabl 21 a Diagram 16). Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB mewn termau rhifiadol a chanrannol (plws/minws x%).</p> <p>Ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r LICD, caiff y cynlluniau a gwblhawyd eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC) a nodir yn y cynllun. Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB mewn termau rhifiadol a chanrannol (plws/minws x%).</p> <p>Dylid hefyd fonitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dyraniadau safleoedd, a hap-safleoedd mawr a bach ar wahân.</p> <p>Gweler yr adran ar ddiweddarau'r trywydd tai drwy'r AMB.</p>
Cyfanswm cronol y gwaith a gwblheir wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd gwblhau <u>gronol</u> ddisgwyliedig.	<p>Rhaid monitro'r nifer tai cronol a gwblheir yn erbyn y gyfradd gwblhau gronol fel y nodir yn y trywydd tai mabwysiedig (gweler Tabl 21 a Diagram 16). Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB mewn termau rhifiadol a chanrannol (plws/minws x%).</p> <p>Ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r LICD, caiff y cynlluniau a gwblheir eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol a nodir yn y cynllun. Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB mewn termau rhifiadol a chanrannol (plws/minws x%).</p>

	Gweler yr adran ar ddiweddarau'r trywydd tai drwy'r AMB.
Roedd lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn cael ei monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun. Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblheir.	Monitro'r gwaith o gwblhau tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio bob blwyddyn yn erbyn y targed a bennwyd yn y cynllun. Dylai dangosydd ar wahân fonitro'r rhaniad deiliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd) yn unol â'r angen a nodir yn yr AFDL.
Defnydd o dir cyflogaeth yn erbyn dyraniadau. Twf swyddi.	Monitro'r defnydd o dir cyflogaeth yn y cynllun. Dangosyddion sy'n monitro twf swyddi Dosbarth B yn unol â'r strategaeth.
Cyflawni polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canran ar gyfer pob ardal is-farchnad.	Monitro'r modd y caiff tai fforddiadwy eu darparu yn unol â thargedau polisi a throthwyon ym mhob ardal is-farchnad (lle bo'n berthnasol) gan gynnwys unrhyw wriad uwchlaw neu islaw'r targed.
Hyfywedd.	Dylai ACLI fonitro tueddiadau (cadarnhaol a negyddol) mewn penderfynyddion allweddol ar amodau'r farchnad a hyfywedd megis prisiau tai, gwerthoedd tir, costau adeiladu.
Cyfradd y datblygiadau ar ddyraniadau allweddol (gorffeniadau sy'n gysylltiedig â thrywyddau graddol a chynlluniau seilwaith, lle y bo'n briodol).	Monitro datblygiad defnydd tir a seilwaith cysylltiedig ar safleoedd datblygu allweddol yn y cynllun. Bydd angen ystyried y gyfradd ddatblygu yn erbyn y trywydd disgwylidig, yr egwyddorion Creu Lleoedd a'r atodiad cyflawni.
Darparu seilwaith allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun.	Bydd hyn yn monitro datblygiad seilwaith newydd, megis gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd a gwelliannau i gyfleustodau y mae strategaeth y cynllun yn dibynnu arnynt.
Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd.	Bydd hyn yn monitro datblygiad safleoedd sipsiwn a theithwyr dynodedig i ddiwallu'r angen a nodwyd dros gyfnod llawn y cynllun. Bydd hefyd yn ofynnol i ddangosydd ar wahân fonitro a gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw angen newydd sy'n codi y tu allan i'r ALISTh.
Graddfa/math y datblygiad bregus iawn a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	Dangos effeithiolrwydd osgoi datblygiad bregus iawn yn yr ardaloedd sy'n wynebu'r risg fwyaf.
Dangosyddion Penodol a Chyd-destunol Lleol	
Dangosyddion Lleol	Dylai dangosyddion polisi/pwnc penodol gael eu diffinio gan bob ACLI yn benodol i'w ardal a'u hystyried yn erbyn pwysigrwydd

	monitro effeithiolrwydd strategaeth y cynllun.
Dangosyddion Cyd-destunol.	Dylai'r rhain gael eu diffinio gan bob ACLI a chynnwys ystyried dylanwadau ar lefel strategol i ddisgrifio'r amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'r cynllun datblygu yn gweithredu oddi mewn iddynt.
Cysylltiadau â Monitro'r AC/AAS	
AC/AAS.	Bydd angen i'r cynllun ystyried y cysylltiadau rhwng proses fonitro'r AAS/AC a phroses fonitro'r CDLI er mwyn osgoi dyblygu. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer adrodd ar y cyd. Gweler hefyd yr adran AMB.

- 2.2.6. Er bod y fersiwn ddiweddaraf, i raddau helaeth, yr un fath ag yn y LICD blaenorol, mae'r fersiwn ddiweddaraf yn cynnwys dangosyddion monitro ychwanegol sy'n adlewyrchu system monitro cyflenwi tai newydd Llywodraeth Cymru.

2.3. FFRAMWAITH MONITRO CDLI BRO MORGANNWG

- 2.3.1. Mae Adran 9 o'r CDLI, 'Mesur Llwyddiant', yn nodi'r Fframwaith Monitro sy'n sail i'r AMB .
- 2.3.2. Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys cyfres o dargedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad y polisiau a'r cynigion datblygu a geir yn y CDLI yn eu herbyn. Datblygwyd y Fframwaith Monitro yn unol â Rheoliadau perthnasol Llywodraeth Cymru a chanllawiau ar fonitro ac fe'i hystyriwyd yn yr Archwiliad CDLI ac yn Adroddiad yr Archwilwyr. Caiff y fframwaith monitro ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod y fframwaith yn gyson ag unrhyw newidiadau i bolisi a chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â monitro cynlluniau datblygu.

RHEOLIADAU ASESIAU AMGYLCHEDDOL O GYNLLUNIAU A RHAGLENNI (CYMRU) 2004 A RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010 (FEL Y'U DIWYGIWYD)

- 2.3.3. Rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwydddebau a Rheoliadau Ewropeaidd perthnasol. Yn hyn o beth, dylai monitro'r CDLI gyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y CDLI drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad Cynaliadwyedd (AAS/AC).
- 2.3.4. Mae'r AC yn helpu i ddangos bod y CDLI yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymegol polisiau. Mae AC y CDLI yn nodi cyfres o amcanion a dangosyddion effaith sylweddol y bwriedir iddynt fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI.

2.3.5. Amcanion Cynaliadwyedd y CDLI yw:

- 1 Rhoi'r cyfle i bobl ddiwallu eu hanghenion tai.
- 2 Cynnal, hyrwyddo a gwella'r ystod o gyfleusterau lleol.
- 3 Cynnal a gwella mynediad i bawb.
- 4 Lleihau achosion amddifadedd.
- 5 Cynnal, diogelu a gwella ysbryd cymunedol.
- 6 Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- 7 Lleihau gwastraff.
- 8 Defnyddio tir yn effeithiol ac yn effeithlon
- 9 Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.
- 10 Darparu amgylchedd o ansawdd uchel ym mhob datblygiad newydd.
- 11 Diogelu, gwella a hyrwyddo ansawdd a chymeriad diwylliant a threftadaeth Bro Morgannwg.
- 12 Lleihau'r angen i deithio a galluogi'r defnydd o ddulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.
- 13 Darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith lleol.
- 14 Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau tref, ardal a lleol y Fro.
- 15 Hyrwyddo twristiaeth briodol.

2.3.6. Felly, mae paratoi'r AMB yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

FFORMAT A CHYNNWYS YR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

2.3.7. Yr AMB yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI ac mae'n helpu i nodi unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol o dueddiadau sefydledig. sef:

- **Adran 1** Crynodeb Gweithredol - yn nodi canfyddiadau a chasgliadau allweddol mewn perthynas â chyflawni'r strategaeth ac a oes angen adolygiad o'r cynllun.
- **Adran 2 Cyflwyniad** - yn amlinellu gofyniad, diben a strwythur yr AMB.
- **Adran 3 Newidiadau Cyd-destunol** - yn rhoi trosolwg o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er ei bod y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i bolisi yn yr adran dadansoddi polisi berthnasol, gan gynnwys newidiadau i'r fframwaith polisi ar lefel genedlaethol neu leol.

- **Adran 4 Proses Fonitro'r CDLI ac AC**- yn esbonio'r prosesau monitro a gynhaliwyd.
- **Adran 5 Fframwaith Monitro'r CDLI** - Dadansoddi dangosyddion - Yn adrodd ar berfformiad dangosyddion monitro'r CDLI fel y'u nodir yn Fframwaith Monitro'r CDLI ac fel y cytunwyd arnynt yn ystod proses archwilio'r CDLI.
- **Adran 6 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd** - yn darparu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn 15 amcan yr AC.
- **Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion** - yn nodi trosolwg o'r holl ddangosyddion a pherfformiad y Cynllun yn y cyfnod monitro 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2020.

MONITRO YN Y DYFODOL

- 2.3.8. Mae'r LICD yn cynghori y dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gallu cymharu adroddiadau olynol ac adeiladu ar ganlyniadau blaenorol (gweler paragraff 8.12 o'r LICD). Yn ogystal, o ystyried bod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy'n dod o'r Cyngor a ffynonellau allanol e.e. StatsCymru, gallai unrhyw newidiadau i'r ffordd y cyflwynir y ffynonellau gwybodaeth allanol wneud dangosyddion penodol yn aneffeithiol neu'n hen-ffasiwn. Felly, er y bydd pob ymgais yn cael ei gwneud gan y Cyngor i gynnal fformat cyson ar gyfer yr AMB, efallai y bydd dylanwadau allanol yn gofyn am ymgorffori newidiadau adrodd neu gyflwyniadol mewn AMBau yn y dyfodol.

2.4. NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL

- 2.4.1. Mae'n bwysig deall sut y mae dylanwadau allanol a/neu ffactorau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi effeithio ar weithredu strategaeth ac amcanion y CDLI neu ddylanwadu arnynt.
- 2.4.2. Felly, mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI a allai fod wedi dylanwadu ar strategaeth y CDLI a/neu berfformiad polisi. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol newydd a/neu ddiwygiedig a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.
- 2.4.3. Yn ogystal, mae'r adran hefyd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa economaidd gyffredin dros y cyfnod monitro ynghyd â gwybodaeth am gynnydd ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) allweddol. Lle y bo'n briodol, nodir unrhyw oblygiadau posibl i'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol o'r CDLI yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi er hwylustod ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma.

2.5. NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL

DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015

- 2.5.1. Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Yn ogystal â chyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, cyflwynodd y Ddeddf sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Cynllun defnydd tir cenedlaethol yw'r FfDC, neu Cymru'r Dyfodol, sy'n pennu polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru a bwriedir i CDSau fynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol ar faterion fel tai, cyflogaeth, trafnidiaeth a gwastraff (gweler Adran 2.6).

GWEITHREDU ATODLEN 3 O DDEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR 2010: Y DEFNYDD GORFODOL O SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY (SDCAU)

- 2.5.2. O 7 Ionawr 2019, mae angen system ddraenio gynaliadwy (SDC) ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy yn gorfod cael System Ddraenio Gynaliadwy (SDdG) Rhaid i'r SDC gael ei dylunio a'i hadeiladu yn unol â Safonau SDCau Statudol fel y'u cyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid i gynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu fel Corff Cymeradwyo SDCau (CCDC), cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
- 2.5.3. Bydd gweithredu SDCau sy'n cydymffurfio â'r safonau statudol ar gyfer pob datblygiad newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni:
- Nodau Lles ar gyfer cymunedau cydlynol, gwydn ac iachach, sy'n gyson â'r dyletswyddau ar gyffwrdd cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - Datblygu cynaliadwy, sy'n gyson â dyletswyddau awdurdodau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015; a
 - Gwella bioamrywiaeth, sy'n gyson â dyletswyddau ar gyffwrdd cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) (2021)

- 2.5.4. Pasiwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) [y Bil] gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Ionawr 2021. Mae'r Bil yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o ddiwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad i weithio rhanbarthol.
- 3.4.24. O ganlyniad, oherwydd y cyd-destun cenedlaethol presennol ac effeithiau parhaus Covid-19 ar y sector manwerthu, ystyrir ei bod yn rhesymol ac yn briodol i benderfyniadau Rheoli Datblygu ym Mro Morgannwg fabwysiadu dull hyblyg o newid defnydd cynigion lle ystyrir y byddai'r cynnig o fudd i'r ganolfan ac yn cyfrannu at fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y ganolfan.
- 3.4.25. At hynny, er mwyn adlewyrchu'r angen am hyblygrwydd mewn canolfannau manwerthu, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud diwygiadau dros dro i Gynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) i roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer newid defnydd yng nghanol trefi. Mae'r newid hwn mewn deddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer newid defnydd dros dro o A1 i A2, A3, B1, D1 a D2 mewn canolfannau manwerthu am gyfnod o 6 mis hyd at 29 Ebrill 2022 heb fod angen caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, dylai monitro'r sefyllfa fanwerthu barhau i sicrhau bod canolfannau manwerthu'n cael eu hadfer ac nid yw'r cynnydd uchod yn anghysondeb o fewn y cyd-destun ehangach.
- 3.4.26. O ran polisi cynllunio lleol, mae Polisi CDLI MG14 (Defnyddiau Manwerthu nad ydynt yn A1 mewn Canolfannau Manwerthu Tref ac Ardal) yn ceisio lleihau'r nifer o ddefnyddiau manwerthu A1 a gollir o fewn canolfannau. Fodd bynnag, mae'r sector manwerthu yng Nghymru yn gweld symudiad oddi wrth siopau manwerthu nwyddau cymharol tuag at hamdden (bwyd, diodydd ac adloniant) a gwasanaethau – sy'n adlewyrchu'r duedd ehangach a welir yn yr Alban a Lloegr wrth i ganol trefi esblygu. Adlewyrchir hyn ymhellach yn y Canllawiau Adfer Covid-19 y cyfeirir atynt uchod. Felly, nid yw Polisi CDLI MG14 yn adlewyrchu'r cyfeiriad polisi hwn ac mae'r Cyngor wedi paratoi canllawiau polisi pellach ar ffurf CCA drafft newydd i helpu i ddatrys materion swyddi gwag parhaus a sicrhau bod polisi cynllunio lleol yn cadw golwg ar yr amgylchedd manwerthu sy'n newid er mwyn cynnal bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad ei ganolfannau manwerthu. Mae twf siopa ar-lein yn pwysleisio ymhellach yr angen i sicrhau bod canolfannau manwerthu'n hyblyg. Adlewyrchir hyn hefyd yn y CCA. Mae'r cynnydd ar y CCA wedi'i atal dros dro oherwydd COVID 19 ond rhagwelir yr ymgynghorir arno cyn diwedd 2021 ac y caiff ei fabwysiadu yng ngwanwyn 2022.

3.5. CRYNODEB CYD-DESTUNOL

- 3.5.1. Mae'r wybodaeth gyd-destunol a ddarperir uchod wedi nodi amrywiaeth o ddeddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiau, strategaethau a ffactorau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dod i'r amlwg ers mabwysiadu'r CDLI ac yn ystod cyfnod monitro diweddarach y CDLI.

- 3.5.2. Er y gallai fod gan lawer o'r ffactorau a nodwyd oblygiadau yn y dyfodol o ran cyflwyno'r CDLI, bydd y newidiadau cyd-destunol a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun. Bydd AMBau dilynol hefyd yn parhau i roi diweddariadau am wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol yn ogystal ag effeithiau'r pandemig COVID 19 presennol.

4. FFRAMWAITH MONITRO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL A'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

4.2.1. Mae dwy elfen allweddol i'r fframwaith monitro, sef:

- Strategaeth, polisïau a chynigion y CDLI; a'r
- AC sy'n cynnwys gofynion y Gyfarwyddeb AAS.

4.2.2. Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd fframwaith polisi'r CDLI wrth gyflawni'r nodau / canlyniadau a'r targedau polisi a nodwyd, ynghyd ag argymhellion priodol ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destunol polisi-benodol arwyddocaol sydd wedi codi dros y cyfnod monitro a allai effeithio ar weithrediad polisi. Wedi'i alinio â fframwaith monitro'r CDLI, caiff y dadansoddiad ei grwpio yn unol â fframwaith monitro'r Cynllun ac mae wedi'i strwythuro yn nhrefn amcanion perthnasol y Cynllun.

4.2.3. Er mwyn gallu cyflawni'r CDLI yn effeithiol, datblygodd y Cyngor gyfres o dargedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad y polisïau a'r cynigion datblygu yn eu herbyn. Mae llawer o'r dangosyddion yn cynnwys targedau chwemisol neu'n cyfeirio at ddyddiadau targed priodol ar gyfer datblygiadau / cyfleusterau penodol i asesu perfformiad y Cynllun. Targed cyffredinol y Cynllun yw cyflawni'r gwaith o weithredu strategaeth y CDLI.

4.2.4. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diwygiedig (Mawrth 2020) yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y dangosyddion craidd ac mae'r fframwaith monitro wedi'i ddiwygio i ymgorffori'r rhain. Mae'r fframwaith monitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol sy'n ategu'r dangosyddion craidd. Mae'r dangosyddion lleol yn ymwneud â chyd-destun Bro Morgannwg ac yn cyfeirio at ofynion penodol polisïau a chynigion unigol a geir yn y CDLI. Maent hefyd yn seiliedig ar argaeledd ac ansawdd data lleol. Mae'r dangosyddion craidd a lleol yn gysylltiedig ag amcanion y CDLI ac maent yn bwysig wrth fonitro effeithiolrwydd strategaeth a pholisïau'r CDLI.

4.2.5. Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys cyfres o ddangosyddion a thargedau a bennir yn erbyn pwyntiau sbardun i ddangos a yw un rhan o'r cynllun yn methu â chyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae pwyntiau sbardun wedi'u cynnwys i asesu ar ba lefel y mae polisi wedi ymwahanu oddi wrth y targed monitro gyda'r bwriad o nodi nad yw'r polisi'n cael ei weithredu neu fod angen ei ddiwygio.

4.2.6. I helpu i gymharu a nodi unrhyw dueddiadau sy'n datblygu, mae fformat tablau'r AMB wedi'i ddiwygio i gynnwys perfformiad y dangosyddion monitro o'r AMB blaenorol.

4.3. SGORIAU GOLEUADAU TRAFFIG PERFFORMIAD POLISI

- 4.3.1. Er mwyn helpu i ddehongli a deall yr asesiad polisi a rhoi trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi, cynhwysir sgôr 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

Parhau i Fonitro (Gwyrdd)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol nid oes achos adolygu.
Angen Hyfforddiant (Glas)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd a bod angen rhagor o hyfforddiant ar swyddogion neu aelodau.
Canllawiau Cynllunio Atodol yn Ofynnol a Briffiau Datblygu (Porffor)
Gall dangosyddion awgrymu bod angen darparu canllawiau pellach yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn y Cynllun. Yn ogystal, os na fydd safleoedd yn dod i'r amlwg fel y rhagwelwyd; bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â datblygwyr / tirlfeddianwyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol i helpu i ddechrau'r broses ddatblygu
Ymchwil Polisi (Melyn)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, bydd angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach i hyn. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill a gallai ystadegau cenedlaethol fod yn angenrheidiol lle y bo'n briodol.
Adolygiad Polisi (Ambr)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu â rhoi'r strategaeth ar waith, bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Gallai fod angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach cyn cadarnhau penderfyniad i gynnal adolygiad ffurfiol.
Adolygu'r Cynllun (Coch)
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygu'r Cynllun yn ffurfiol. Bydd angen ystyried yr opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun yn llawn ar ôl ystyriaeth ddifrifol.

4.4. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD / ASESIAID AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

- 4.4.1. Rhan annatod o broses y CDLI yw'r gofyniad i gynnal AC o'r Cynllun. Gwnaeth proses yr AC a oedd yn ymgorffori gofynion y Gyfarwydddeb AAS gynorthwyo'r Cyngor i asesu effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tebygol y CDLI ac i gynllunio ar gyfer mesurau lliniaru i leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r manteision cadarnhaol mwyaf posibl.
- 4.4.2. Mae Monitro AC yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nododd yr AC cychwynnol gyfres o 15 amcan a datblygwyd dangosyddion a thargedau cysylltiedig i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Nodir hyn yn Adran 6 .

5. FFRAMWAITH MONITRO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - DADANSODDI POLISI

- 5.2. Mae'r adran hon yn darparu asesiad manwl o b'un a yw polisiâu strategol y Cynllun, a'r gwaith cysylltiedig sy'n cefnogi rheoli polisiâu twf / datblygu, yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Darperir argymhellion priodol wedyn, ynghyd â'r camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro. Wedi'i alinio â'r CDLI, nodir y dadansoddiad mewn trefn wrthrychol.

1. CYMUNEDAU CYNALIADWY

Newidiadau Cyd-destunol: Cyfeiriwch at adran 3 o'r AMB hwn

AMCAN 1: Cynnal cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg a'u datblygu ymhellach, gan ddarparu cyfleoedd byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb.

Cyf 1.1

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
CRAIDD: Cyfanswm yr unedau tai ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r ddarpariaeth tai gyffredinol.	Caniateir 82% o unedau tai ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r ddarpariaeth tai gyffredinol.	10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad		
AMB 1: 2018-19	AMB 2: 2019-2020	AMB 3: 2020-2021
Ar 1 Ebrill 2019, cyfanswm nifer yr anheddau a gymeradwywyd oedd 6195. O'r anheddau hyn roedd 5,213 ar safleoedd dynodedig, sef 84% o'r ddarpariaeth tai gyffredinol a gymeradwywyd hyd yma, ac mae o fewn y targed monitro.	Ar 1 Ebrill 2020, cyfanswm nifer yr anheddau a gymeradwywyd oedd 6,560. O'r anheddau hyn roedd 5108 ar safleoedd dynodedig, sef 78% o'r ddarpariaeth tai gyffredinol a gymeradwywyd hyd yma, ac mae o fewn y targed monitro. Dylid nodi bod y ffigur anheddau hwn ar gyfer y safleoedd a ddyrannwyd yn is na'r AMB blaenorol i adlewyrchu'r gymeradwyaeth gynllunio wedi'i diweddarau ar gyfer dyraniad CDLI MG2 (37) Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili.	Ar 1 Ebrill 2021, cyfanswm nifer yr anheddau a gymeradwywyd oedd 7,314. O'r anheddau hyn roedd 5,527 ar safleoedd dynodedig, sef 76% o'r ddarpariaeth tai gyffredinol a gymeradwywyd hyd yma, ac mae o fewn y targed monitro.
Polisiâu CDLI Perthnasol		

Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.

Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD2, MD4, MD5, MD6.

Amcanion AC: 1, 3, 4, 8, 10, 12.

Dadansoddi

Mae Polisi SP3 yn nodi gofyniad tai o 9,460 o anheddau dros gyfnod y Cynllun. Mae'r CDLI yn nodi'r fframwaith polisi ar gyfer cyflawni'r gofyniad a nodwyd, ochr yn ochr â ffin hyblygrwydd o 10% er mwyn sicrhau bod ystod a dewis o dir tai ar gael drwy gydol cyfnod y Cynllun.

Mae Polisi MG1 yn nodi'r cydrannau ar gyfer cyflawni'r gofyniad tai a nodwyd, gan gynnwys yr hyblygrwydd 10% fel a ganlyn:

Datblygu Safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol (10 annedd neu fwy) ym mis Ebrill 2011	182
Dyraniadau o fewn y Cynllun	8,525
Datblygu hap-safleoedd nas dyrennir (10 annedd neu fwy)	840
Datblygu safleoedd bach (llai na 10 annedd)	861
CYFANSWM CYFLENWAD ANHEDDAU 2011-2026	10,408

Er mwyn gallu cyflawni'r gofyniad tai, mae Polisi MG2 yn dyrannu 48 o safleoedd datblygu ledled Bro Morgannwg, a fydd gyda'i gilydd yn darparu 8,525 o anheddau. Mae hyn yn cyfateb i 82% o'r ddarpariaeth a nodir o dan Bolisi MG1.

Nod dangosydd craidd 1.1 yw monitro cymeradwyaeth safleoedd a ddyrannwyd o fewn y Cynllun fel canran o'r ddarpariaeth tai gyffredinol. Er mwyn cyrraedd targed 2026 o 82%, mae angen caniatáu 568.33 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd bob blwyddyn (h.y. 8,525 o anheddau ÷ 15 mlynedd o'r Cynllun).

Ar gyfer 1 Ebrill 2021 y targed yw cymeradwyo 5,683 o anheddau ar safleoedd a ddyrennir o fewn y CDLI ar gyfer datblygiad preswyl. Mae'r data monitro a nodir yn y tabl isod yn dangos bod 5,527 o anheddau wedi'u cymeradwyo ar safleoedd a ddyrannwyd a bod cyfanswm o 7,314 o anheddau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2011-2021. Er bod nifer yr anheddau a gymeradwywyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn is na'r hyn a ragwelwyd, mae hyn yn cynrychioli 76% o'r holl anheddau a gymeradwywyd ac felly mae o fewn yr amrywiant -10% a nodir yn y fframwaith monitro.

Nifer yr Anheddau a Gymeradwywyd ar Safleoedd MG2, 1 Ebrill 2021		
Cyfeirnod	Safle	Nifer yr Anheddau wedi'u cymeradwyo at 1 Ebrill 2021 *yn
MG2 (1)	Cam 2 Glannau'r Barri	1,527
MG2 (2)	Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan (rhan)	108
MG2 (3)	Tir yn Church Farm, Sain Tathan	0
MG2 (4)	Cyn-safle'r Stadiwm / Tir gerllaw Burley Place, Sain Tathan	0
MG2 (5)	Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis	253
MG2 (6)	Tir gerllaw Froglands Farm, Llanilltud Fawr	100*

MG2 (7)	Tir rhwng Ffordd Fynediad newydd y Gogledd ac Eglwys Brewis Road, Llanilltud Fawr	140*
MG2 (8)	Parc Pleser Ynys y Barri	0
MG2 (9)	White Farm	177
MG2 (10)	Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane	67
MG2 (11)	Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane	0
MG2 (12)	Ysgol Maes Dyfan	81
MG2 (13)	Llys Ynadon y Barri	52
MG2 (14)	Depo Court Road, y Barri	0
MG2 (15)	Holm View	11
MG2 (16)	Hayes Wood, The Bendricks	0
MG2 (17)	Ysgol Gyfun Is y Bont-faen	21
MG2 (18)	Bloc 6 ^{ed} Dosbarth Ysgol Gyfun y Barri, Aberthin Road	0
MG2 (19)	Tir sy'n ffinio â St Athan Road, y Bont-faen	0
MG2 (20)	Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen	475
MG2 (21)	Fferm Plasnewydd, Llanilltud Fawr	149
MG2 (22)	Tir ger Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr	89
MG2 (23)	Cyn-Ysgol Gynradd Eagleswell, Llanilltud Fawr	0
MG2 (24)	Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog	0
MG2 (25)	Tir sy'n ffinio ag Ysgol St. Joseff, Sully Road, Penarth	74
MG2 (26)	Ysgol Headlands, St Augustine's Road	0
MG2 (27)	Tir ger Oak Court, Penarth	0
MG2 (28)	Tir yn ac yn ffinio ag Ysgol St. Cyres, Murch Road	215
MG2 (29)	Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	70
MG2 (30)	Tir sy'n ffinio ag Ardwyn, Pen-y-Turnpike	18
MG2 (31)	Tir yn Cross Common Road	50
MG2 (32)	Tir i'r de o Fryn Llandochau / Heol Penarth	0
MG2 (33)	Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd	40
MG2 (34)	Llandough Landings	0
MG2 (35)	Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	347
MG2 (36)	Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	87
MG2 (37)	Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili	325
MG2 (38)	Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô	132
MG2 (39)	Tir ger Court Close, Aberthin	20
MG2 (40)	Tir i'r Dwyrain o Dresimwn	120
MG2 (41)	Tir i'r cefn o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn	64
MG2 (42)	ITV Wales, Croes Cwrlwys	224
MG2 (43)	The Garden Emporium, Fferm Goch	40
MG2 (44)	Canolfan Breswyl Ogwr	70

MG2 (45)	Maes Carafanau Ogwr	100
MG2 (46)	Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas	117
MG2 (47)	Tir oddi ar St. Brides Road, y Wig	124
MG2 (48)	Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen	40
	Cyfanswm yr Anheddau a Gymeradwywyd	5527
Cam Gweithredu		
Parhau i Fonitro: Mae polisïau perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

Cyf 1.2		
Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Cyfanswm nifer yr unedau tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd dan MG2.	Adeiladu 3,246 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd dan MG2 erbyn 2020. allocated sites by 2021.	10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad		
AMB 1: 2018-19	AMB 2: 2019-2020	AMB 3:2020-2021
Ar 1 Ebrill, 2019, roedd 2,484 o anheddau wedi'u cwblhau ar safleoedd tai MG2, gan ragori ar darged monitro'r CDLI o 2,428 ar gyfer y cyfnod monitro.	Ar 1 Ebrill, 2020, roedd 3,325 o anheddau wedi'u cwblhau ar safleoedd tai MG2, gan ragori ar darged monitro'r CDLI o 3,246 ar gyfer y cyfnod monitro.	Ar 1 Ebrill, 2021, roedd 3,914 o anheddau wedi'u cwblhau ar safleoedd tai MG2, gan ragori ar darged monitro'r CDLI o 4,279 ar gyfer y cyfnod monitro, sy'n ddiffyg o 8.5%.
Polisïau CDLI Perthnasol		
Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.		
Polisïau Rheoli Twf: MG1, MG2, MG3 MG4, MD2, MD4, MD6.		
Amcanion SA: 1, 3, 4, 8, 10, 12.		
Dadansoddi		
<p>Mae Papur Cefndir Trywydd Cyflenwad Tir Tai CDLI y Cyngor (Medi 2016) yn nodi'r tai newydd y bwriedir eu cyflawni ar gyfer pob blwyddyn yng nghyfnod y Cynllun (2011-2026) ac fe'i paratowyd gan y Cyngor i ddangos sut y bydd y CDLI yn bodloni'r gofyniad o 9,460 o anheddau dros gyfnod y cynllun, yn ogystal â 10% i ddarparu hyblygrwydd. Mae'r trywydd yn darparu cyfraddau blynyddol rhagamcanol o ddarpariaeth tai o'r dyraniadau tai preswyl o fewn y CDLI, ynghyd â haddatblygiadau mawr a bach</p> <p>Mae'r targed monitro ar gyfer cwblhau 4,279 o anheddau ar safleoedd tai a ddyrannwyd yn deillio o gyfanswm nifer y rhai a ragwelir o fewn y llwybr tai yn 1 Ebrill 2021. Mae data monitro tai a gasglwyd gan y Cyngor yn dangos bod 3,914 o anheddau wedi'u cwblhau ar safleoedd a ddyrannwyd MG2. Mae hyn 8.5% yn is na'r targed disgwylid ond ni chafwyd amrywiant o ddwy flynedd yn y sbardun monitro wrth i nifer yr anheddau a gwblhawyd yn 2020 ragori ar y targed. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor bellach wedi dechrau adolygiad ffurfiol o'r CDLI a fydd yn cynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth tai, y cyflenwad tir a'r gofyniad annedd hyd yma.</p> <p>Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am nifer yr anheddau a gwblhawyd ar bob dyraniad tai'r CDLI.</p>		
MG 2 Dyraniadau Tai a Gwblhawyd, Cynnydd 1 Ebrill 2021		

Safle	Enw'r Safle	Cyfanswm yr Anheddau	Wedi'i gwblhau ar 1 Ebrill 2021
MG2 (1)	Cam 2, Glannau'r Barri	1,700	1,288
MG2 (2)	Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan	220	100
MG2 (3)	Tir yn Church Farm, Sain Tathan	250	0
MG2 (4)	Cyn-safle'r Stadiwm / Tir gerllaw Burley Place, Sain Tathan	65	0
MG2 (5)	Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis	255	0
MG2 (6)	Tir gerllaw Froglands Farm, Llanilltud Fawr	100	0
MG2 (7)	Tir rhwng Ffordd Fynediad newydd y Gogledd ac Eglwys Brewis Road	375	0
MG2 (8)	Parc Pleser Ynys y Barri	25	0
MG2 (9)	White Farm	177	177
MG2 (10)	Tir i'r dwyrain o Pencoedre Lane	67	67
MG2 (11)	Tir i'r gorllewin o Pencoedre Lane	137	0
MG2 (12)	Ysgol Maes Dyfan	81	81
MG2 (13)	Llys Ynadon y Barri	52	52
MG2 (14)	Depo Court Road, y Barri	50	0
MG2 (15)	Holm View	50	8
MG2 (16)	Hayes Wood, The Bendricks	55	0
MG2 (17)	Ysgol Gyfun Is y Bont-faen	21	21
MG2 (18)	Bloc 6 ^{ed} Dosbarth Ysgol Gyfun y Barri, Aberthin Road	20	0
MG2 (19)	Tir sy'n ffinio â St Athan Road, y Bont-faen	130	0
MG2 (20)	Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen	475	83
MG2 (21)	Fferm Plasnewydd, Llanilltud Fawr	149	149
MG2 (22)	Tir ger Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr	89	73
MG2 (23)	Cyn-Ysgol Gynradd Eagleswell	72	0
MG2 (24)	Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog	576	0
MG2 (25)	Tir sy'n ffinio ag Ysgol St. Joseff, Sully Road, Penarth	74	74
MG2 (26)	Ysgol Headlands, St Augustine's Road	65	0
MG2 (27)	Tir ger Oak Court, Penarth	145	0
MG2 (28)	Tir yn ac yn ffinio ag Ysgol St. Cyres, Murch Road	215	205
MG2 (29)	Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	70	70
MG2 (30)	Tir sy'n ffinio ag Ardwyn, Pen-y-Turnpike	18	18
MG2 (31)	Tir yn Cross Common Road	50	50
MG2 (32)	Tir i'r de o Fryn Llandochoau / Heol Penarth	130	0
MG2 (33)	Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd	40	0
MG2 (34)	Llandough Landings	120	0
MG2 (35)	Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	700	317
MG2 (36)	Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	87	87
MG2 (37)	Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili	500	34

MG2 (38)	Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô	132	132
MG2 (39)	Tir ger Court Close, Aberthin	20	20
MG2 (40)	Tir i'r Dwyrain o Dresimwn	120	29
MG2 (41)	Tir i'r cefn o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant,	64	64
MG2 (42)	ITV Wales, Croes Cwrlwys	224	224
MG2 (43)	The Garden Emporium, Fferm Goch	40	40
MG2 (44)	Canolfan Breswyl Ogwr	70	70
MG2 (45)	Maes Carafanau Ogwr	100	100
MG2 (46)	Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas	117	117
MG2 (47)	Tir oddi ar St. Brides Road, y Wig	124	124
MG2 (48)	Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen	85	40
		8501	3,914

Cam Gweithredu Parhau i Fonitro: Mae polisïau perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyf 1.3		
Dangosydd Monitro	Targed Monitro	Sbardun Monitro
CRAIDD: Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd dynodedig fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.	Sicrhau caniatâd cynllunio ar 20% (73.6 ha) o dir cyflogaeth erbyn 2020.	10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Yn 2018 cymeradwydd y Cyngor 36.91 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth strategol a lleol fel y nodwyd ym Mholisi CDLI MG9.	Yn 2019 nid yw'r Cyngor wedi cymeradwyo unrhyw gynigion newydd ar ddyraniadau cyflogaeth yn ystod yr ail gyfnod AMB. Fodd bynnag, mae 77.837 ha (21.099%) o dir cyflogaeth wedi'i gymeradwyo yn ystod cyfnod y cynllun.	Yn 2020 mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 3 chynnig newydd ar ddyraniadau cyflogaeth yn ystod y trydydd cyfnod AMB. Arweiniodd hyn at gymeradwyo 9.202 ha ychwanegol o dir cyflogaeth. Yn gyffredinol, mae 87.039 ha wedi'i gymeradwyo sy'n cyfateb i 23.59%.
Polisïau CDLI Perthnasol		
Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.		
Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG3, MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16.		
Amcanion AC: 4, 10, 13.		
Dadansoddi		

Dylai'r dadansoddiad o'r dangosydd fonitro cynigion datblygu a gymeradwywyd yn ystod cyfnod y cynllun o 2011 oherwydd bod dangosydd 1.3 yn ymwneud â chyfanswm y 368.91 hectar o dir cyflogaeth a ddyrennir o fewn y CDLI. Isod ceir manylion am y caniatâd a roddwyd i ddatblygu ar ddyraniadau cyflogaeth o 2011 ymlaen:

Safleoedd Cyflogaeth Strategol - Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd		
Lleoliad	Manylion	Ardal (ha)
MG9 Tir i'r De o Gyffordd 34 M4 Hensol	2014/00228/EAO Caniatâd cynllunio amlinellol gyda phob mater wedi'i neilltuo ac eithrio mynediad, ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys defnyddiau dosbarth B1, B2 a B8; gwesty/canolfan hyfforddi breswyl (dosbarth C1/C2); a defnyddiau ategol o fewn dosbarth A1, A2, A3; gwaith a seilwaith peirianeg a modelu tir cysylltiedig, parcio ceir, draenio a mynediad at bob defnydd; darparu seilwaith (gan gynnwys canolfan(nau) ynni); tirlunio a'r holl waith galluogi ategol.	34.78 ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	2016/00617/LAW Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon - Defnydd arfaethedig gan Aston Martin Lagonda Limited; prif ddefnydd ar gyfer gweithgynhyrchu ac adeiladu ceir modur (Dosbarth B2), gyda defnyddiau ategol ar gyfer storio/dosbarthu, swyddfa, derbynfya a man arddangos, ffreutur staff a pharcio. 2016/00890/FUL Caniatâd Cynllunio - gweithrediadau adeiladu Cam 1, sy'n cynnwys trosi a newid rhan ogleddol yr adeilad cymorth presennol i ddarparu derbynfydd wedi'u huwchraddio, swyddfydd, ystafelloedd cyfarfod, cegin, caffeteria staff a man arddangos ynghyd â newidiadau i ddarparu derbynfydd wedi'u huwchraddio, swyddfydd, ystafelloedd cyfarfod, cegin, caffeteria staff a man arddangos ynghyd â newidiadau i gylchrediad allanol a pharcio, a thirlunio. 2017/00756/FUL Caniatâd Cynllunio - Newidiadau Adeiladu Cam 2, sy'n cynnwys cilfachau llwytho arfaethedig a mewnlenni arwynebedd dan do cyfredol. Caniatâd Cynllunio 2019/01260/HYB - Cynllunio hybrid sy'n cynnwys: caniatâd cynllunio llawn ar gyfer dymchwel strwythurau presennol ac ar gyfer adeiladu ffordd wasanaeth newydd, slabiau/ffedogau adeiladu a draeniad cysylltiedig; a chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer codi hyd at 40,000 metr sgwâr o gyfleusterau cyflogaeth gweithredol ochr aer GIA (Dosbarth B1 a/neu Ddosbarth B2 a/neu Ddosbarth B8), parcio cerbydau, gwasanaethu a'r holl waith adeiladu a pheirianeg cysylltiedig gyda phob mater arall a gadwyd yn ôl	46.997 ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	2016/01367/FUL Caniatâd Cynllunio - Adeiladau storio arfaethedig o fewn safle wedi'i ffensio	0.54 ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	2015/01133/FUL Caniatâd Cynllunio - Codi cyfleuster hyfforddi hofrenyddion unllawr	0.026 ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	2013/00699/FUL Caniatâd Cynllunio - Codi awyrendy sy'n darparu cyfleuster chwilio ac achub hofrenyddion newydd	1.35 ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	Caniatâd Cynllunio 2019/01314/FUL - Datblygiad PV Solar wedi'i Osod ar Dir Arfaethedig	0.96ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws	Caniatâd Cynllunio 2020/00106/FUL - Adeilad diwydiannol newydd ar gyfer boeler biomas a storio pren	0.256ha
Safleoedd Cyflogaeth Lleol - Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd		
Lleoliad	Manylion	Ardal (ha)

MG9 (4) Ystâd Fasnachu'r Iwerydd	2014/00932/FUL - Plot 3B, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, y Barri - Adeiladu unedau diwydiannol a busnes ysgafn wedi'u fframio â phorth, gan greu datblygiad bach o unedau sy'n addas ar gyfer busnesau sy'n tyfu a busnesau newydd. 2015/00668/FUL - Plot 3B, Porth yr Iwerydd, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Hayes Road, y Barri - Datblygu warws ac adeiladu swyddfeydd cysylltiedig. 2017/00316/FUL Plot 3B, Porth yr Iwerydd, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Hayes Road, y Barri - Adeiladu uned fasnachol unllawr ysgafn, wedi'i rhannu'n 4 uned ar wahân	0.73ha
MG9 (6) Hayes Lane, Sili	2018/01317/FUL - Spider Camp, Hayes Lane, Sili - Adeiladu chwe adeilad wedi'u fframio â phorth a ffyrdd cysylltiedig, rhannu adeiladau i ffurfio 43 o unedau diwydiannol ysgafn	1.4 ha
<p>Mae'r Cyngor wedi rhagori ychydig ar darged monitro 2020 ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r CDLI yn dyrannu 368.91 ha o dir cyflogaeth ym Mholisi MG9. Yn ystod cyfnod y CDLI (o 2011 ymlaen) mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 87.039 ha o ddefnydd cyflogaeth ar y dyraniadau cyflogaeth sy'n cyfateb i 23.59% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd.</p> <p>Mae'r targed monitro nesaf a amlinellir yn Fframwaith Monitro'r CDLI yn nodi bod angen i'r Cyngor sicrhau caniatâd cynllunio ar 44% (163 ha) o dir cyflogaeth erbyn 2022. Dylid nodi bod dau gais wedi'u cymeradwyo ym mis Ebrill 2021 sy'n dod y tu allan i'r trydydd cyfnod AMB sef 2019/01421/RES (MG9 (1) yn rhannol) a 2020/01367/RG3 (MG9 (4) Plot C yn rhannol) sy'n cyfateb i 9.225ha. Yn ogystal, cymeradwywyd 44.75ha o dir cyflogaeth yn Model Farm (fel y cyfeiria MG9[2]) ym mis Gorffennaf 2021. Mae hyn yn dangos bod dyraniadau cyflogaeth yn cael eu cyflwyno'n gyson yn ystod cyfnod y cynllun ac mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed monitro nesaf.</p> <p>Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiau ar gyfer cyflawni'r gofyniad cyflogaeth a nodwyd yn perfformio'n dda ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol .</p>		
Cam Gweithredu	Parhau i Fonitro: Mae polisiau perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.	

2. NEWID YN YR HINSAWDD

Newidiadau Cyd-destunol: Cyfeiriwch at adran 3 o'r AMB hwn. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu mewn AMBau

AMCAN 2: Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau effaith a lleihau effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd.

Cyf 2.1

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Swm y Datblygiad (yn ôl categori NCT15) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion NCT 15.	Ni roddwyd unrhyw ganiatadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 oni bai bod pob prawf NCT15 yn cael ei fodloni.	1 neu fwy o ddatblygiadau'n cael eu caniatáu o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni pob prawf NCT15.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad oeddent yn bodloni holl brofion NCT15	Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C1.	Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C1.
Polisiau CDLI Perthnasol		
Polisiau Rheoli Datblygu: MD1, MD4, ac MD7. Amcanion AC: 6.		
Dadansoddi		
Mae'r targed wedi'i gyrraedd. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio o fewn gorlifdir C1 yn ystod y cyfnod AMB hwn. O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor o'r farn bod gweithredu Polisiau MD1, MD4 ac MD7 ar y cyd â pholisiau eraill o fewn y CDLI wedi galluogi'r Cyngor i gyrraedd y targed monitro. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiau ar gyfer cyflawni'r targed a nodwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		
Cam Gweithredu	Parhau i Fonitro: Mae polisiau perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.	

Cyf 2.2		
Dangosydd Monitro	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Swm y Datblygiad (yn ôl categori NCT 15) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion NCT 15.	Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 oni bai bod holl brofion NCT 15 yn cael eu bodloni.	1 neu fwy o ddatblygiadau agored iawn i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 oni bai bod holl brofion NCT 15 yn cael eu bodloni.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020-2021
Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad oeddent yn bodloni holl brofion NCT15	Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad oeddent yn bodloni holl brofion NCT15	Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod cyfnod monitro'r AMB mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad oeddent yn bodloni holl brofion NCT15
Polisiau CDLI Perthnasol		
Polisiau Rheoli Datblygu: MD1, MD4, MD7. Amcanion AC: 6.		
Dadansoddi		
Mae'r targed wedi'i gyrraedd. Rhoddwyd 2 ganiatâd cynllunio o fewn gorlifdir C2 ond roedd pob cymeradwyaeth yn bodloni profion NCT 15 yn ystod y cyfnod monitro hwn. Isod mae'r ceisiadau a gymeradwywyd mewn gorlifdir C2 yn unol â phroffion NCT 15:		
Cymeradwyaethau Preswyl		
Rhif y Cais	Lleoliad	Y Cynnig
2019/01354/FUL	Fferm Doghill, Dyffryn	Dymchwel annedd sy'n bodoli eisoes a chodi annedd newydd
Cymeradwyaethau Amhreswyl		
Rhif y Cais	Lleoliad	Y Cynnig
2019/01399/FUL	R & M Williams Ltd, Williams House, Ystad Ddiwydiannol West Point, Penarth	Newid yn y defnydd o safle'r cwmni adeiladu (swyddfeydd gyda warws ac iard ategol) i gyfleuster hunan-storio (mewn warws a rhan o'r iard). Swyddfeydd i aros fel unedau B1 (busnes) cyffredinol. Darparu 47 o gynwysyddion storio yn yr iard. Parhau'n rhan o'r iard i weithredu fel man parcio a rennir ar gyfer cyfleuster a swyddfeydd hunan-storio.

O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor o'r farn bod gweithredu Polisiâu MD1, MD4 ac MD7 ar y cyd â pholisiâu eraill o fewn y CDLI wedi galluogi'r Cyngor i gyrraedd y targed monitro. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu ar gyfer cyflawni'r targed a nodwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cam Gweithredu

Parhau i Fonitro: Mae polisiâu perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyf 2.3

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Cyfanswm capasiti allbwn ynni lle rhoddyd caniatâd cynllunio (MW) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n fwy nag 1MW.	Rhoi caniatâd cynllunio digonol i fodloni 10.6% (56.68 GWh) o'r galw rhagamcanol am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020. Rhoi caniatâd cynllunio digonol i fodloni 0.74% (11.28 GWh) o'r galw rhagamcanol am wres drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020	Methiant i roi caniatâd cynllunio i ddarparu digon o ynni adnewyddadwy i gyrraedd y targedau penodedig gan 20% neu fwy.

Perfformiad

AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau ynni adnewyddadwy newydd yn ystod cyfnod monitro'r AMB. Fodd bynnag, mae targed monitro 2020 eisoes wedi'i gyrraedd o ddechrau cyfnod y Cynllun hyd yma.	Cymeradwywyd un datblygiad ynni adnewyddadwy yn ystod y cyfnod AMB ar gyfer ynni'r haul, gan ychwanegu 1.4MW ychwanegol.	Cymeradwywyd 2 ddatblygiad ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu trydan, gan ychwanegu 5.6MW. Cymeradwywyd 5 datblygiad ynni adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu gwres, gan ychwanegu 2MW.

Polisiâu CDLI Perthnasol

Polisiâu Rheoli Twf/Datblygu: MG27, MD2, MD19.

Amcanion AC: 6.

Dadansoddi

Mewn perthynas â chyfrifo cyfanswm y capasiti allbwn ynni a roddwyd caniatâd cynllunio, mae angen ystyried y ffactor capasiti ar gyfer pob ffynhonnell ynni adnewyddadwy a gymeradwywyd. Mae'r ffactor capasiti yn mesur faint o ynni y bydd gorsaf gynhyrchu fel arfer yn ei gynhyrchu mewn blwyddyn ar gyfer unrhyw gapasiti penodol sydd wedi'i osod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y capasiti a osodwyd yn fesur o uchafswm y pŵer y gall gorsaf gynhyrchu ei gynhyrchu ar unrhyw adeg benodol. Fodd bynnag, am resymau'n ymwneud ag argaeledd tanwydd, yr angen am amser segur cynnal a chadw, neu, ar gyfer gwaith cynhyrchu gwres, diffyg galw am wres ar adegau penodol o'r dydd neu'r flwyddyn, mae'r ffactor capasiti bob amser yn llai nag 1. Cyfrifir y GWh fel yr allbwn ynni blynyddol nodweddiadol wedi'i rannu ag allbwn ynni blynyddol os yw'r gwaith yn cynhyrchu ar ei gapasiti llawn am y flwyddyn gyfan. Amlinellir

y ffactorau capasiti ar gyfer ynni adnewyddadwy isod a'r rhain yw'r canrannau nodweddiadol a gofnodir ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy yn y DU yn seiliedig ar gyfnod blynyddol:

Ffactorau Capasiti Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy	
Technoleg	Ffactor Capasiti
Gwynt ar y Tir	0.27
Biomass (deunydd anifeiliaid a phlanhigion)	0.9
Ynni dŵr	0.37
Troi Gwastraff yn Ynni (TGyY)	0.9
Nwy Tirlenwi	0.6
Nwy Carthffosiaeth	0.42
Trydan YAIA	0.1
Fferm Solar	0.1

Ffactorau Capasiti Cynhyrchu Gwres Adnewyddadwy	
Technoleg	Ffactorau Capasiti
Gwres o Wres a Phŵer Cyfunol (o fomas neu TGyY, neu o fomas neu TGyY gwres yn unig ar raddfa fawr)	0.5
Gwres YAIA (gwresogi dŵr solar, pypiau gwres, boeleri biomass)	0.2

Drwy gyfrif am y ffactor capasiti, mae hyn yn effeithio ar gapasiti gosodedig prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r ceisiadau a gymeradwywyd a sut y cyfrifwyd y GWh:

Rhif y Cais	Dyddiad Cymeradwyo	Math o Ynni	Capasiti wedi'i Osod
2014/00081/FUL	01/08/2014	Solar	7
2014/00798/FUL	21/11/2014	Solar	6
2014/01036/FUL	21/05/2015	Solar	0.15
2014/01089/FUL	19/12/2014	Solar	10
2014/01490/FUL	15/05/2015	Solar	5
2015/00026/FUL	05/06/2015	Solar	2.2
2015/00218/FUL	31/07/2015	Solar	5
2015/00573/FUL	02/10/2015	Solar	5
2015/00600/FUL	17/08/2015	Solar	0.15
2015/00632/FUL	04/09/2015	Solar	5
2015/00782/FUL	20/11/2015	Solar	2
2015/00852/FUL	14/01/2016	Solar	3
2016/00779/FUL	30/09/2016	Solar	3
2016/01446/FUL	01/02/2017	Solar	1
2019/01314/FUL	26/03/2020	Solar	1.4
2020/00575/FUL	11/09/2020	Solar	0.1
2020/01275/FUL	10/03/2021	Solar	5.5

Hafaliad Ffactor Capasiti	55.9 MWe x 0.1 x 365 x 24 = 53,874 MWh		
2013/00633/FUL	22/11/2013	Gwynt	1
2014/00257/FUL	09/06/2014	Gwynt	1
2014/00812/FUL	16/01/2015	Gwynt	0.5
2016/01202/FUL	05/12/2016	Gwynt	0.8
Hafaliad Ffactor Capasiti	3.3 MWe x 0.27 x 365 x 24 = 7,805.16 MWh		
2016/00725/RG3	21/10/2016	Boeler Biomas	0.15
2017/01203/FUL	08/06/2018	XXX	7.59
2020/01434/FUL	25/01/2021	Boeler Biomas	0.15
2020/00482/FUL	15/09/2020	Boeler Biomas	0.44
2020/00252/FUL	06/07/2020	Boeler Biomas	1
2020/00106/FUL	18/08/2020	Boeler Biomas	0.24
2020/00090/FUL	13/07/2020	Boeler Biomas	0.17
Hafaliad Ffactor Capasiti	9.74 MWt x 0.2 x 365 x 24 = 17,064.48 MWh		

Mewn perthynas â'r targed monitro, mae'r tabl uchod yn dangos bod y datblygiadau cymeradwy ar gyfer ynni adnewyddadwy o ran cynhyrchu ynni yn ystod cyfnod y cynllun yn hafal i 61.68 GWh, sy'n cyfateb i 11.53% o'r galw cyffredinol am drydan a ragwelir drwy ffynonellau adnewyddadwy. Mae hyn yn uwch na'r targed monitro a amlinellir yn y CDLI o 10.6% (yn seiliedig ar y galw trydan rhagamcanol o 535 GWh erbyn 2026) o'r galw cyffredinol am drydan a ragwelir drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae hefyd yn dangos twf cyson mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy ym Mro Morgannwg ers y cyfnod AMB diwethaf.

O ran y targed monitro ar gyfer ynni gwres, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 17.06GWh o ynni gwres o ffynonellau adnewyddadwy yn ystod cyfnod y cynllun sy'n cyfateb i 1.12% o'r galw am wres a ragwelir erbyn 2026 (1,524 GWh). Mae targed monitro'r CDLI yn ceisio sicrhau bod 0.74% o'r galw am wres yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 sy'n cyfateb i 11.28 GWh. Nid yw'r Cyngor eto wedi cyrraedd targed 2020 ar gyfer cynhyrchu gwres o ffynonellau adnewyddadwy eto. Dylid nodi bod cais 2017/01203/FUL sy'n ymwneud â chyfleuster treulio anaerobig ar Waith Trin Gwastraff Cog Moors wedi'i hepgor mewn camgymeriad gan AMBau blaenorol ond mae wedi'i gynnwys sydd wedi cynyddu cynhyrchiant sylweddol o ynni gwres ym Mro Morgannwg.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Cyngor gynnig biomas yn 2015 o dan gais 2015/00031/OUT a fyddai'n cynhyrchu 9 MW o gapasiti gwres wedi'i osod. Wrth adeiladu'r cynnig nodwyd nad oedd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd, felly cyflwynodd y datblygwr gais Adran 73a yn 2017 i ddiwygio cynnig 2015 (cyfeiria 2017/01080/FUL). Tynnwyd y cais hwn yn ôl yn ddiweddarach. Roedd hyn o ganlyniad i newid deddfwriaeth Llywodraeth Cymru rhwng y ddau gais sy'n golygu y byddai datblygiadau o'r raddfa a gynigir yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) i'w galw i mewn ac y penderfynir amynt gan Weinidogion Cymru yn hytrach nag Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Yn ystod y cyfnod hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru asesu a fyddai angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ganiatâd gwreiddiol 2015, nad oedd ei angen o'r blaen. O'r 12 Mai 2021, mae'r ymgeisydd ar gyfer y datblygiad wedi cyflwyno AEA o'r datblygiad a adeiladwyd a darparwyd y datganiad amgylcheddol cysylltiedig i Lywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2021 i lywio eu hadolygiad o'r cynnig.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad hwn, byddai'r datblygiad cymeradwy yn cael Hysbysiad Terfynu ar y datblygiad, neu ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol a chadarnhawyd y gymeradwyaeth wreiddiol os ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn dderbyniol. Os caiff y gymeradwyaeth ei chadarnhau neu os ystyrir bod yr AEA posibl yn dderbyniol, byddai'r datblygiad yn cynrychioli 2.59% o'r capasiti gwres o ffynonellau adnewyddadwy (9 MWt x 0.5 x 365 x 24 = 39.42 GW / 1524 x 100 = 2.59%). O ganlyniad, byddai'r CDLI wedi cyrraedd ei darged ar gyfer 2026 ar gyfer cyfnod cyfan y CDLI. Ystyrir bod y rhesymau dros yr ansicrwydd ynghylch y cynnig hwn y tu allan i gwmpas y CDLI mabwysiedig ac felly ystyrir bod polisïau'r CDLI yn gweithio'n effeithiol.

Mae targed monitro 2020 ar gyfer capasiti trydan o ffynonellau adnewyddadwy wedi'i gyrraedd. Yn ogystal, o ran y capasiti gwres o ffynonellau adnewyddadwy, mae'r targed wedi'i gyrraedd. Nodir bod cymeradwyaeth cais 2015/00031/OUT yn parhau'n ansicr a bydd ei gynnydd yn parhau i gael ei fonitro. Felly, ystyrir bod polisiâu perthnasol y CDLI yn gweithio'n effeithiol.

Cam Gweithredu	Parhau i Fonitro: Mae polisiâu perthnasol y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
-----------------------	---

Cyf 2.4

LLEOL: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy.

Cymeradwywyd y Canllaw Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy ym mis Mawrth 2019.

3. TRAFNIDIAETH

Newidiadau Cyd-destunol: Cyfeirwch at adran 3 o'r AMB hwn. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu mewn AMBau

AMCAN 3: Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i fodloni eu hanghenion bob dydd a darparu mwy o ffurfiau cynaliadwy ar drafnidiaeth.

Cyf 3.1

Dangosydd Monitro Blyneddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Nifer y cynlluniau trafndiaeth lleol a gyflwynwyd i helpu i gyflawni cynlluniau a nodir ym Mholisiau SP7 ac MG16.	<p>Cyflawni'r cynlluniau trafndiaeth lleol canlynol erbyn 2020:</p> <p>Mesurau Blaenoriaeth Bws yr A4050 Port Road i Faes Awyr Caerdydd.</p> <p>Ffordd Gyswllt Ynys y Barri.</p> <p>Gwelliannau B4265 Hen Felin Silstwn.</p> <p>Gwelliannau i'r A4226 rhwng Weycock Cross, y Barri a Sycamore Cross, yr A48 (Lôn Pum Milltir).</p> <p>Gwelliannau i Gyffordd Cross Common Road.</p> <p>I'r gogledd o'r A48, gwelliannau i Bonvilston Road.</p> <p>Cyflawni'r cynlluniau trafndiaeth lleol canlynol erbyn 2026.</p> <p>Ffordd Fynediad y Gogledd.</p> <p>Ffordd Gyswllt rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, y Bont-faen.</p>	<p>Llai na 6 chynllun wedi'u darparu erbyn 2020.</p> <p>Methiant i gyflawni'r holl gynlluniau trafndiaeth erbyn 2026.</p>

	<p>Cyfnewidfa fysus Gorsaf Doc y Barri.</p> <p>Moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd.</p> <p>Llwybr RhGC 88 a chysylltiadau trefol a gwledig lleol cysylltiedig.</p> <p>Llwybr cerdded a beicio'r A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd.</p> <p>Yr A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy lwybr cerdded a beicio'r Bont-faen.</p> <p>Llwybr cerdded a beicio Glannau'r Barri i Ddinas Powys.</p> <p>Llwybr cerdded a beicio Eglwys Brewis Road ar y cyd â Ffordd Fynediad newydd y Gogledd.</p> <p>Bws parcio a theithio yn Cosmeston.</p> <p>Mesurau blaenoriaeth bysus ar yr A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen.</p> <p>Mesurau blaenoriaeth bysus yn Merrie Harrier, Ffordd Caerdydd, y Barri i Gaerdydd drwy Barry Road.</p> <p>Mesurau blaenoriaeth bysus yn Heol Lecwydd, Llandochau i Gaerdydd.</p> <p>Mesurau blaenoriaeth bysus yn Lavernock Road i Gaerdydd drwy'r Morglawdd</p>		
Perfformiad			
Targed Monitro	AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 – 2020	AMB 3: 2020-2021
Mesurau Blaenoriaeth Bws yr A4050 Port Road i Faes Awyr Caerdydd.	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2016/17.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Ffordd Gyswllt Ynys y Barri.	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2018.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol
Gwelliannau B4265 Hen Felin Silstwn.	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2015/16.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol
Gwelliannau i'r A4226 rhwng Weycock Cross, y Barri a Sycamore Cross, yr A48 (Lôn Pum Milltir).	Dechreuwyd ar y gwaith yn 2017 - dylai gael ei gwblhau ym mis Hydref 2019.	Cynllun yn weithredol Hydref 2019.	Ddim yn berthnasol

Gwelliannau i Gyffordd Cross Common Road.	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2017/18.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol
I'r gogledd o'r A48, gwelliannau i Bonvilston Road.	Parhaus.	Cynllun wedi'i gwblhau ym mis Medi 2019.	Ddim yn berthnasol
Ffordd Fynediad y Gogledd (FfFG).	Dechreuwyd ar y gwaith. Cynllun i'w gwblhau ddiwedd 2019.	Cwblhawyd y cynllun ym mis Mai 2020.	Ddim yn berthnasol
Ffordd Gyswllt rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, y Bont-faen.	Dechreuwyd ar y gwaith. Disgwylir i'r ffordd gael ei chwblhau ym mis Hydref 2019.	Cwblhawyd y cynllun ym mis Ebrill 2020.	Ddim yn berthnasol
Cyfnewidfa fysus Gorsaf Doc y Barri.	Disgwylir i astudiaethau ddechrau yn 2019 fel rhan o'r cynllun Metro+ sydd wedi'i gyflwyno gan y Cyd-awdurdod Trafnidiaeth.	Arian grant ar gyfer astudiaeth WelTAG Cam 2 a 3 wedi'i gymeradwyo gan y Fargen Ddinesig ym mis Chwefror. Penodwyd yr ymgynghorwyr Amey i ymgymryd â'r gwaith a disgwylir adroddiad Cam 2 ar opsiynau ym mis Gorffennaf 2020.	Astudiaeth barhaus gyda WelTAG Cam 3 yn cael ei gynnal y flwyddyn ariannol hon (2021/22)
Moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd.	Bydd gwaith i orsafoedd Bro Morgannwg (Heol Dingle, Penarth a'r Barri) yn dechrau yn 2020. Trenau amlach ar linell Bro Morgannwg (i 2 drên yr awr) i'w ystyried erbyn 2023 fel rhan o gynlluniau gan y fasnachfaint reilffordd newydd, Trafnidiaeth Cymru.	Mae Mynediad i Bawb yn gweithio ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2020 yng ngorsafoedd Tref y Barri a Llangatwg. Mae dwy o orsafoedd y Fro (RS5PEN (Heol Dingle i Benarth) ac RS5BAR (Cogan i Ynys y Barri)) wedi'u cynnwys yn Metro De Cymru Bwriad i Uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r gwaith gwella a gynigir yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i: 1. dolen basio newydd rhwng Gorsafoedd Heol Dingle a Phenarth.	Comisiynwyd Capita i ymgymryd â WelTAG Cam 3 ar gyfer Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cogan.

		<p>2. gorsaf a phlatfform newydd gyda mynediad ramp yng Ngorsaf Penarth.</p> <p>3. cynigir gwell cyfnewidfa a chysylltiadau maes awyr yng Ngorsaf y Barri</p> <p>Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu'n raddol o ran dylunio ac adeiladu. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Mai 2021 ar gyfer Rheilffordd y Barri ac Awst 2021 ar gyfer Cangen Penarth. Rhagwelir y bydd cyfnod gweithredu cyffredinol ar gyfer TRhCC yn para tan 2023.</p> <p>Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i wasanaeth ychwanegol yr awr rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr drwy Linell Bro Morgannwg o fis Rhagfyr 2023 ac i wasanaeth ychwanegol yr awr rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr drwy Linell Bro Morgannwg o fis Rhagfyr 2024.</p>	
--	--	--	--

		<p>Mae coridor Bro Morgannwg wedi'i nodi fel un o bedwar coridor blaenoriaeth ar gyfer gwelliannau o dan Fframwaith Gwella'r Metro, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Thrafnidiaeth Cymru. Bydd y pedwar coridor yn awr yn cael eu symud ymlaen i asesiadau Cam 1 WelTAG er mwyn nodi rhestr fer o atebion gwella ar gyfer pob coridor i gyfeirio rhaglen buddsoddi trafnidiaeth gydlynol.</p> <p>Mae Gorsaf Cogan, Penarth, wedi'i chynnwys yn rhaglen Cam 2 Metro+ y mae'r Awdurdod Trafnidiaeth wedi cymeradwyo £1.74 miliwn o gyllid ar ei gyfer i ddatblygu cynlluniau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dyfarnwyd £420,000 i ddatblygu gwaith yng Ngorsaf Cogan ar gyfer 2020/21 fel rhan o'r rhaglen.</p> <p>Ni fydd unrhyw risiau yn Nhregatwg a Thref y Barri ar ôl cwblhau cynlluniau Mynediad i Bawb NR sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac sydd i'w cwblhau yn 2020.</p>	
Llwybr RhGC 88 a chysylltiadau trefol a gwledig lleol cysylltiedig.	Parhaus.	Parhaus. Cyflwynwyd 2 gais am gyllid ar gyfer 2020/21 i gynnwys dyluniad manwl ar yr adran rhwng Cylchfan Biglis a Gladstone Road, y Barri a Llanmaes Road, Llanilltud Fawr.	Roedd ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus ar gyfer dyluniad manwl ar ran rhwng Cylchfan Biglis a Gladstone Road, Y Barri a Ffordd Llan-faes, Llanilltud Fawr.

		<p>Efallai y bydd arian ychwanegol ar gael drwy gylchoedd ariannu Teithio Llesol eraill nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.</p> <p>Cyfraniadau A106 o ddatblygiadau tai sy'n gwella'r RhGC fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Rhws - Gwelliannau Station Rd/Fontygary Rd/Rhose Rd/Porthceri – gweithredu gan ddefnyddio cyfraniadau trafndiaeth gynaliadwy A106 oddi ar y safle o 2020/21 ymlaen. • Y Wig – dau gynllun sy'n gyfagos i FffG gan gynnwys uwchraddio croesfan sebra ar y B4265 i wneud symudiadau cerddwyr/beicwyr yn fwy diogel (cwblhau 2020/21) a throedffordd/llwybr beicio newydd ar dir hamdden ar Broughton Road. Mae cymeradwyaeth CCDC yn cael ei cheisio ar hyn o bryd, cyn gweithredu. • ACLI yn trafod cyfraniadau ariannol A106 "mewn nwyddau" ar ac oddi ar y safle o ddatblygiadau tai a ddyrannwyd er mwyn cyfrannu at welliannau pellach i RhGC arfaethedig e.e. Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Penarth. 	<p>Mae gwaith ar gynlluniau A106 yn parhau ond fe'u harafwyd oherwydd cyfyngiadau Covid.</p>
--	--	--	--

<p>Llwybr cerdded a beicio'r A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd.</p>	<p>Wedi'i gwblhau'n rhannol yn 2016 hyd at Weycock Cross. Darparu seilwaith cerdded a beicio rhwng cylchfan Weycock Cross a maes awyr Caerdydd erbyn 2026 drwy Adran 106 a grant Llywodraeth Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth).</p>	<p>Cais Teithio Llesol am gyllid Dyraniad Craidd o £70,000 ar gyfer 2020/21 wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith dylunio manwl.</p> <p>Mae'r llwybr hefyd wedi'i gynnwys fel cais am gyllid 'Datganiadau o Ddiddordeb' i Lywodraeth Cymru i gwmpasu mesurau dros dro i weithredu cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy i liniaru effeithiau'r pandemig Covid-19.</p>	<p>Datganiadau o ddiddordeb ddim yn llwyddiannus.</p> <p>Grant dyrannu craidd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i barhau â gwaith dylunio manwl yn 2021/22.</p>
<p>Yr A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy llwybr cerdded a beicio'r Bont-faen.</p>	<p>Heb ddechrau.</p>	<p>Datgan Diddordeb mewn cyllid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gynnwys mesurau dros dro i weithredu cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy i gynorthwyo beicio rhwng pentrefi Sain Nicolas a Thresimwn i Groes Cwrlwys i liniaru effeithiau'r pandemig COVID 19.</p> <p>Ni ddechreuwyd prif gynigion y cynllun.</p>	<p>Nid oedd datganiadau o ddiddordeb llwyddiannus.</p>
<p>Cyflawni cyfleuster cymunedol Polisi MG7 (3) Aberogwr erbyn 2020.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer darparu neuadd bentref gymunedol amlbwrpas newydd. Mae Cyngor Cymuned Saint-y-brid wedi dweud y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ym mis Awst 2019 (cyfeirnod cynllunio 2018/00224/FUL).</p>	<p>Dechreuodd y gwaith o adeiladu neuadd y pentref ym mis Ionawr 2020, ac mae'n parhau, a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn hydref 2020 (yn amodol ar oediadau Covid-19).</p> <p>Mae Cymdeithas Neuadd Bentref Aberogwr wedi symud ymlaen gyda'r cynllun hwn, mewn partneriaeth â'r Cyngor. Rhoddwyd caniatâd cynllunio, a datryswyd yr holl faterion perchnogaeth tir. Derbyniodd y Cyngor gyfraniadau A106 gan ddatblygiadau cyfagos ar gyfer 'Cyfleusterau Cymunedol' a 'Man Agored Cyhoeddus' ac mae wedi rhoi £335,157.83 iddynt tuag at y cyfleuster newydd hwn.</p> <p>Targed ar y trywydd iawn.</p>	<p>Mae'r neuadd bentref newydd yn Aberogwr bron â'i chwblhau. Bu oedi oherwydd COVID19 a chyfyngiadau gwaith ar waith. Nid yw targed 2020 wedi'i gyrraedd, er bod hyn yn deillio'n bennaf o'r amgylchiadau nas rhagwelwyd. Mae Cymdeithas Neuadd Bentref Ogwr yn gweithio gyda'r contractwr penodedig i orffen yr adeilad a rhagweld agor y cyfleuster yn ystod haf 2021.</p>
<p>Cyflawni cyfleuster cymunedol Polisi MG7 (2) St. Cyres erbyn 2024.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi sicrhau safle 3ha at ddefnydd y gymuned a fydd yn cael ei farchnata maes o law. Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau cyfraniad A106 gan ddatblygwyr y safle ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd naill ai ar y safle hwn neu o fewn yr ardal (cyfeirnod cynllunio 2017/01136/HYB).</p>	<p>Mae'r datblygiad defnydd cymysg (y mae'r dyraniad hwn yn rhan ohono) yn cael ei adeiladu. Mae Uned Rheoli Prosiectau'r Cyngor yn ystyried opsiynau ar gyfer y safle ac yn archwilio cyfleoedd gyda darpar ddefnyddwyr terfynol.</p> <p>Targed ar y trywydd iawn.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor gyfraniad Cyfleusterau Cymunedol A106 (£281,736) ar 02/09/2020 o'r datblygiad yn Hen Ysgol St. Cyres Isaf, Murch Road, Dinas Powys.</p> <p>Mae Uned Rheoli Prosiectau'r Cyngor wrthi'n paratoi Adroddiad Cabinet ynghylch y safle 3ha at ddefnydd y gymuned. Mae Cyngor Cymuned Dinas Powys wedi</p>

			mynegi diddordeb yn y safle ac yn edrych ar ddefnydd posibl yn y dyfodol. Targed ar y trywydd iawn.
Cyflawni cyfleuster cymunedol Polisi MG7 (4) Cosmeston erbyn 2026.	Nid yw'r datblygiad yn Fferm Cosmeston wedi dechrau. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.	Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.	Cais cynllunio 2020/01170/OUT a dderbyniwyd ar 30/09/2020 ac mae'n cael ei ystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.
Polisiau CDLI Perthnasol			
Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP6, SP11. Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG7, MG8, MG29, MD1, MD2, MD4, MD5, MD13. Amcanion AC: 2, 4, 5.			
Dadansoddi			
<p>Yn ogystal â darparu cyfleusterau safle-benodol ar y cynlluniau a nodwyd ym mholisi MG7, lle na ellir darparu cyfleusterau cymunedol ar y safle, mae cyfraniadau ariannol wedi'u derbyn gan y Cyngor yn lle cyfleusterau cymunedol. Defnyddiwyd y taliadau hyn i uwchraddio a/neu gefnogi cyfleusterau cymunedol presennol yn yr ardal. Er enghraifft, mae ardaloedd gemau aml-ddefnydd newydd wedi'u datblygu yn Llandochau a'r Wig gan ddarparu cyfleoedd chwaraeon awyr agored gydol y flwyddyn.</p> <p>Dim ond yn rhannol y bodlonwyd y targed monitro ar gyfer Polisi MG7 (1) Glannau'r Barri (fel rhan o ddefnydd cymysg) yn yr AMB blaenorol. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol yn 2020/21, ac mae gwaith ar y gweill i ddarparu cyfleusterau cymunedol ychwanegol ar y safle, ac yng nghyffiniau'r safle.</p> <p>O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi MG7 a pholisiau perthnasol eraill yn gweithio'n effeithiol.</p>			
Cam Gweithredu	Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.		

Cyf 5.3		
Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Gofod agored cyhoeddus a nodwyd ym Mholisi MG28, a sicrhawyd drwy A106/ASC ar y cyd â datblygiad newydd.	Darparu cyfleusterau manau agored cyhoeddus Polisi MG28 (1) a Pholisi MG28 (4) erbyn 2018.	Methu â darparu'r cyfleusterau manau agored cyhoeddus newydd yn unol â'r targed monitro.
	Darparu cyfleusterau manau agored cyhoeddus Polisi MG28 (5) a Pholisi MG28 (8) erbyn 2020.	
	Darparu cyfleusterau manau agored cyhoeddus Polisi MG28 (7) a Pholisi MG28 (10) erbyn 2024.	
	Darparu cyfleusterau manau agored cyhoeddus Polisi MG28	

	(2), Polisi MG28 (3) a Pholisi MG25 (6) erbyn 2026.		
Perfformiad			
Targed Monitro	AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Darparu cyfleusterau mannau agored cyhoeddus Polisi MG28 (1) a Pholisi MG28 (4) erbyn 2018.	Polisi MG28 (1) Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston - 27 ha o gyfleusterau mannau agored wedi'u hychwanegu at barc gwledig drwy drosglwyddo tir o gynlluniau datblygu newydd fel a ganlyn - Trosglwyddwyd 18.5 ha o dir i'r de o'r parc gwledig ger Lavernock Road a 9 ha o dir i'r gogledd o'r parc gwledig i'r Cyngor, i'w rheoli gan y Gwasanaethau Cymdogaeth, yn 2012.	Cwblhawyd. Targed wedi'i gyrraedd.	Ddim yn berthnasol.
	Polisi MG28 (4) White Farm - 6.9 ha o fannau agored newydd wedi'u darparu fel rhan o ddatblygiad newydd (gweler ceisiadau cynllunio 2002/01636/OUT a 2010/00123/RES).	Cwblhawyd. Targed wedi'i gyrraedd.	Ddim yn berthnasol.
Darparu cyfleusterau mannau agored cyhoeddus Polisi MG28 (5) a Pholisi MG28 (8) erbyn 2020.	Polisi MG28 (5) Tir sy'n ffinio ag Ysgol Maes Dyfan - 0.16 ha o le agored cyhoeddus newydd wedi'i ddarparu fel rhan o ddatblygiad preswyl newydd (gweler ceisiadau cynllunio 2015/00075/FUL a 2015/00076/FUL).	Polisi MG28 (5) Tir sy'n ffinio ag Ysgol Maes Dyfan (0.16 Ha) – uwchraddiodd y Cyngor y man agored hwn yn 2019/20 gan ddefnyddio cyfraniad mannau agored cyhoeddus oddi ar y safle a dderbyniwyd o'r datblygiad MG2 (12) cyfagos. Targed wedi'i gyrraedd.	Ddim yn berthnasol.
	Polisi MG28 (8) Tir i'r dwyrain o Dresimwn – sicrhawyd 0.84 ha o le agored cyhoeddus fel rhan o gynllun datblygu preswyl newydd (gweler cais cynllunio 2015/00960/FUL).	Polisi MG28 (8) Tir i'r dwyrain o Dresimwn (0.55 ha) – mae'r Cyngor wedi sicrhau 0.55 ha ynghyd â lle ychwanegol ar gyfer offer chwarae plant (cyf: 2015/00960/FUL). Mae manylion y mannau agored	Mae'r safle'n dal i gael ei adeiladu ac mae'r cynnydd gyda gwerthiant wedi bod yn arafach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae ardaloedd o fannau agored cyhoeddus yn cael eu gosod a'u cwblhau yn unol â'r

		cyhoeddus wedi'u cyflawni (cyf: 2015/00960/5/CD). Mae'r safle'n cael ei adeiladu, a cheir amod y bydd yr holl fannau agored cyhoeddus yn cael eu gosod a'u cwblhau yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt cyn meddiannaeth fuddiol gyntaf unrhyw un o'r anheddau sy'n ffinio'n uniongyrchol â'r ardaloedd o fannau agored cyhoeddus neu'n edrych drostynt. Mae'r 0.55 Ha wedi'i raglennu i'w ddarparu yng nghanau datblygu'r dyfodol. Targed wedi'i gyrraedd yn rhannol.	manylion y cytunwyd arnynt yng Nghytundeb S106 h.y. cyn i unrhyw un o'r anheddau gael eu meddiannu'n uniongyrchol neu sy'n edrych dros yr ardaloedd mannau agored cyhoeddus. Targed wedi'i gyrraedd yn rhannol.
Darparu cyfleusterau mannau agored cyhoeddus Polisi MG28 (7), Polisi MG28 (9) a Pholisi MG28 (10) erbyn 2024.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Polisi MG28 (7) Tir i'r gogledd o'r rheilffordd, y Rhws - Ceisiadau cynllunio 2015/01070/RES a 2015/01072/RES a gymeradwywyd ar 29 Gorffennaf 2016 yn darparu ar gyfer 4.68 ha o le agored.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. MG28 (7) Tir i'r gogledd o'r rheilffordd, y Rhws (3.60 ha). Hyd yma, mae hanner y dyraniad defnydd cymysg MG2 (35) wedi'i ddwyn ymlaen i'w ddatblygu (cyf: 2015/01070/RES a 2015/01072/RES). Mae'r Cyngor wedi sicrhau 1.43 Ha o le agored o fewn hanner y dyraniad hwn, ac mae'r man agored wedi'i gwblhau. Targed wedi'i gyrraedd yn rhannol. O ran hanner arall y dyraniad, rhoddwyd caniatâd yn flaenorol, ond mae wedi mynd yn ddi-rym erbyn hyn Aros i hanner arall y dyraniad defnydd cymysg MG2 (35) gael ei ddwyn ymlaen.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Dim diweddariad pellach ynghylch gweddill hanner y dyraniad.

		Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Polisi MG28 (9) Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen (0.43 ha). Hyd yma, mae hanner y dyraniad defnydd cymysg MG2 (48) wedi'i ddwyn ymlaen i'w ddatblygu (cyf: 2013/00856/OUT / 2014/01483/RES).	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Polisi MG28 (9) Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen (0.43 ha). Hyd yma, mae hanner y dyraniad defnydd cymysg MG2 (48) wedi'i ddwyn ymlaen i'w ddatblygu (cyf: 2013/00856/OUT / 2014/01483/RES). Nid yw'r Cyngor wedi derbyn cais ffurfiol am yr hanner sy'n weddill eto.
	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Polisi MG28 (10) Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog (1 ha). Heb ddechrau. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. MG28 (10). Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog (1 ha). Heb ddechrau. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. MG28 (10). Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog (1 ha). Cais cynllunio 2020/01170/OUT a dderbyniwyd ar 30/09/2021 ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cyngor
Darparu cyfleusterau manau agored cyhoeddus Polisi MG28 (2), Polisi MG28 (3) a Pholisi MG25 (6) erbyn 2026.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol. Polisi MG28 (2) Parc Gwledig Porthceri (42 ha). Estyniad 42 Ha i Barc Gwledig Porthceri wedi'i gynnwys ym Mholisi MG10 – Sain Tathan – Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd. Mae cais cynllunio 2019/00871/OUT yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac ymgynghorir ar CCA Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG28 (2) Parc Gwledig Porthceri (42 ha) – mae'r Cyngor wrthi'n ystyried cais cynllunio amlinellol ar gyfer rhan o'r dyraniadau cyflogaeth a geir ym mholisiau MG9 (2) ac MG10 (cyf: 2019/00871/OUT). Mae estyniad y parc gwledig yn cael ei ystyried fel rhan o'r cais hwn. Mabwysiadwyd CCA Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth	MG28 (2) Parc Gwledig Porthceri (42 ha) – ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cyngor gais cynllunio amlinellol ar gyfer rhan o'r dyraniadau cyflogaeth a gynhwysir ym pholisiau MG9 (2) ac MG10 (cyf: 2019/00871/OUT).
	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG28 (3) Glannau'r Barri (7.83 ha) – Cwblhawyd AOChC, parc llinellol wedi'i gwblhau'n rhannol. Parciau strategol	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG28 (3) Glannau'r Barri (7.83 ha). – Mae sawl CAL yn cael ei adeiladu. Mae'r Cais Materion a Gedwir yn Ôl presennol ar gyfer man	MG28 (3) Glannau'r Barri (7.83 ha). – Mae sawl CAL yn cael ei adeiladu. Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer manau agored cyhoeddus Cei'r Dwyrain a gymeradwywyd (Cyf: 2019/01371/RES). Gwaith

	ychwanegol i'w darparu fel rhan o gamau'r dyfodol.	agored cyhoeddus Cei'r Dwyrain yn cael ei ystyried (Cyf: 2019/01371/RES). I'w gyflawni fel rhan o gamau'r dyfodol.	adfer tir a gwaith paratoi sy'n cael ei wneud.
	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG25 (6) Ysgol Headlands, St. Augustine's Road, Penarth (0.24 ha) – Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG28 (6). Ysgol Headlands, St. Augustines Road, Penarth (0.24 ha). Heb ddechrau. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.	Mae'r targed monitro y tu allan i'r cyfnod AMB presennol - MG28 (6). Ysgol Headlands, St. Augustines Road, Penarth (0.24 ha). Heb ddechrau. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio hyd yma.
Polisiau CDLI Perthnasol			
Polisiau Strategol: SP1, SP2.			
Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG28, MD1, MD2, MD3 MD4, MD5.			
Amcanion AC: 2, 4, 5, 8, 9, 10.			
Dadansoddi			
Mae'r ddarpariaeth Mannau Agored Cyhoeddus a nodwyd yn y fframwaith monitro a Pholisi MG28 – Dyraniadau Mannau Agored Cyhoeddus a amserlennwyd i'w chwblhau yn ystod cyfnod adrodd yr AMB wedi'i bodloni'n rhannol.			
Polisi MG28 (8) Nid yw tir i'r dwyrain o Dresimwn (0.55 ha o fannau agored) wedi'i gwblhau eto gan fod y datblygiad tai cysylltiedig yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a bydd y man agored yn cael ei ddarparu yn unol â'r amodau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio.			
O ystyried y data monitro, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'n ofalus y cynnydd o ran MG28 (8). Mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi MG 28 a pholisiau CDLI perthnasol eraill yn gweithio'n effeithiol.			
Cam Gweithredu	Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.		

Cyf 5.4		
Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollir drwy ddatblygu.	Nid oes unrhyw gyfleusterau cymunedol wedi'u colli'n annerbyniol mewn ardaloedd lle nodwyd angen yn unol â Pholisi MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau).	Colli 1 cyfleuster cymunedol mewn ardal o angen a nodwyd yn groes i Bolisi MD5.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021

Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau a arweiniodd at golled annerbyniol o gyfleusterau cymunedol mewn ardal o angen a nodwyd yn groes i Bolisi MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau).	Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau a arweiniodd at golled annerbyniol o gyfleusterau cymunedol mewn ardal o angen a nodwyd yn groes i Bolisi MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau).	Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau a arweiniodd at golled annerbyniol o gyfleusterau cymunedol mewn ardal o angen a nodwyd yn groes i Bolisi MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau).
---	---	---

Polisiau CDLI Perthnasol

Polisiau Strategol: SP1, SP11.

Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG7, MG8, MG29, MD1, MD2, MD3, MD4, MD5, MD13.

Amcanion AC: 2, 4, 5.

Dadansoddi

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cymeradwywyd 1 cais gan y Cyngor a arweiniodd at golli cyfleuster cymunedol. Pan fo cynigion yn golygu colli cyfleusterau cymunedol, mae'r Cyngor yn gofyn am dystiolaeth gadarn sy'n dangos nad oes angen y cyfleusterau mwyach neu sy'n dangos na fyddai colled o'r fath yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, nid ystyriwyd y cais a gymeradwywyd yn groes i ofynion Polisi MD5 gyda'r ddau gais wedi'u lleoli mewn ardal sydd â chyfleusterau cymunedol digonol i gefnogi'r cynnig a'r boblogaeth breswyl bresennol. At hynny, roedd y cyfleuster cymunedol presennol wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn.

Rhif Cais	Math	Disgrifiad o'r Datblygiad
2020/00257/FUL	Mân - Anheddau (C3)	Trosi llawr gwaelod a llawr gwaelod is i 4 fflat duplex

O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi MD5 a pholisiau perthnasol eraill yn gweithio'n effeithiol.

Cam Gweithredu Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.

Cyf 5.5

LLEOL: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio.

Mabwysiadodd y Cyngor Ganllaw Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio newydd ym mis Gorffennaf 2017.

6. MANWERTHU

Newidiadau Cyd-destunol: Cyfeiriwch at adran 3 o'r AMB hwn. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu mewn AMBau yn y dyfodol.

AMCAN 6: Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau siopa tref, ardal, lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg.

Cyf 6.1 (i)

Dangosydd Monitro	Targed Monitro	Sbardun Monitro
CRAIDD: Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir o fewn ffiniau sefydledig canolfannau tref ac ardal.	Cynnal neu gynyddu lefel y gofod llawr manwerthu mewn canolfannau tref ac ardal.	Gostyngiad o 10% yn lefel y gofod llawr manwerthu presennol mewn canolfannau tref ac ardal.
	Cynnal neu gynyddu lefel y gofod llawr swyddfa mewn canolfannau tref ac ardal.	Gostyngiad o 10% yn lefel y gofod llawr swyddfa presennol mewn canolfannau tref ac ardal.
	Cynnal neu gynyddu lefel y gofod llawr hamdden mewn canolfannau tref ac ardal.	Gostyngiad o 10% yn lefel y gofod llawr hamdden presennol mewn canolfannau tref ac ardal.

Perfformiad

AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020- 2021
<p>Gostyngiad o 2,101 metr sgwâr mewn gofod llawr manwerthu. Cyfanswm arwynebedd y gofod llawr manwerthu ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 82,019 metr sgwâr. Mae'r gostyngiad yn y gofod llawr manwerthu yn cyfrif am ostyngiad o 2.6% ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 614 metr sgwâr mewn swyddfeydd. Cyfanswm arwynebedd y gofod swyddfa ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 2,380 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 25.8% mewn swyddfeydd B1 ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 167 metr sgwâr mewn gofod llawr hamdden. Cyfanswm y gofod hamdden D1 / D2 ar ddechrau'r cyfnod</p>	<p>Gostyngiad o 2,229 metr sgwâr mewn gofod llawr manwerthu. Cyfanswm arwynebedd y gofod llawr manwerthu ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 82,019 metr sgwâr. Mae'r gostyngiad yn y gofod llawr manwerthu yn cyfrif am ostyngiad o 2.7% ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 293 metr sgwâr mewn swyddfeydd. Cyfanswm arwynebedd y gofod swyddfa ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 2,380 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 10.96% mewn swyddfeydd B1 ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 376 metr sgwâr mewn gofod llawr hamdden. Cyfanswm y gofod hamdden D1 / D2 ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017</p>	<p>Gostyngiad o 4,143 metr sgwâr mewn gofod llawr manwerthu. Cyfanswm arwynebedd y gofod llawr manwerthu ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 82,019 metr sgwâr. Mae'r gostyngiad yn y gofod llawr manwerthu yn cyfrif am ostyngiad o 5.05% ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 984 metr sgwâr mewn swyddfeydd. Cyfanswm arwynebedd y gofod swyddfa ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 2,380 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 41.34% mewn swyddfeydd B1 ers 2017.</p> <p>Cynnydd o 870 metr sgwâr mewn gofod llawr hamdden. Cyfanswm y gofod hamdden D1 / D2 ar ddechrau'r cyfnod monitro yn 2017 oedd 4,948 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 17.58% mewn gofod hamdden D1 / D2 ers 2017.</p>

monitro yn 2017 oedd 4,948 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 3.4% mewn gofod hamdden D1 / D2 ers 2017.	oedd 4,948 metr sgwâr. Mae'r cynnydd yn cyfrif am gynnydd o 7.06% mewn gofod hamdden D1 / D2 ers 2017.	
Polisiau CDLI Perthnasol		
Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP5, SP6, SP11.		
Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG7, MG9, MG10, MG11, MG12, MG13, MG14, MG15, MG29, MD1, MD4, MD13, MD14.		
Amcanion AC: 2, 4, 5, 13, 14, 15.		
Dadansoddi		
<p>Er bod y data monitro'n dangos y collwyd gofod llawr manwerthu mewn canolfannau tref ac ardal, mae'r golled o 5.05% yn fach iawn pan gaiff ei lledaenu dros y canolfannau tref ac ardal. At hynny, mae angen edrych ar hyn yn yr enillion mewn defnyddiau swyddfa a hamdden newydd yn y canol trefi a'r ardal sydd wedi'u cymeradwyo'n bennaf fel cynigion newid defnydd o ddefnyddiau manwerthu gwreiddiol. Nodir bod rhai o'r defnyddiau manwerthu a gollwyd o ganlyniad i addasiadau preswyl, ond mae hyn yn ymwneud â 2 uned fanwerthu yn unig. Ystyrir felly nad yw colli gofod llawr manwerthu wedi cael unrhyw effaith andwyl sylweddol ar y canolfannau sy'n parhau i feddu ar swyddogaeth fasnachu gref, a adlewyrchir drwy beidio â bodloni'r sbardun monitro. Serch hynny, o ystyried y bu gostyngiad yn y gofod llawr manwerthu, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i fesur effeithiolrwydd y polisiau manwerthu mewn AMBau yn y dyfodol.</p> <p>O ran defnyddiau swyddfa a hamdden newydd, mae'r data'n dangos bod y targedau dros y cyfnod monitro wedi'u cyrraedd. Ystyrir bod y cynnydd mewn defnyddiau an-fanwerthu mewn canolfannau tref ac ardal yn adlewyrchu eu rôl newidiol, sy'n cael ei haildrodd ledled y wlad ar hyn o bryd wrth i arferion siopa pobl newid.</p> <p>O ystyried y data monitro, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn er mwyn pennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.</p>		
Cam Gweithredu	Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.	

Cyf 6.1 (ii)		
Dangosydd Monitro	Targed Monitro	Sbardun Monitro
CRAIDD: Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir y tu allan i ffiniau sefydledig canolfannau tref ac ardal.	Ni chaniateir unrhyw ofod llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MG13 (Ardaloedd Manwerthu ar Gyrion y Dref a'r Tu Allan).	1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofod llawr manwerthu mawr y tu allan i ganolfannau tref ac ardal oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MG13.
	Ni chaniateir unrhyw ofod swyddfa mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal oni bai bod hynny'n â Pholisi MD14 (Cynigion Cyflogaeth Newydd).	1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofod swyddfa mawr y tu allan i ganolfannau tref ac

		ardal oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MG13.
	Ni chaniateir unrhyw ofod llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MD13 (Twristiaeth a Hamdden) neu MG29 (Cyfleusterau Twristiaeth a Hamdden).	1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofod llawr hamdden mawr y tu allan i ganolfannau tref ac ardal oni bai bod hynny'n unol â Pholisiau MG13 ac MG29.

Perfformiad

AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.
Ni chaniatawyd unrhyw ofod swyddfa mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Ni chaniatawyd unrhyw ofod swyddfa mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Caniatawyd 1 gofod llawr swyddfa mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chrafu o fewn y cyfnod monitro ond ystyriwyd ei fod yn unol ag MD14.
Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.	Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canolfannau tref ac ardal o fewn y cyfnod monitro.

Polisiau CDLI Perthnasol

Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP5, SP6, SP11.

Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG7, MG9, MG10, MG11, MG12, MG13, MG14, MG15, MG29, MD1, MD4, MD13, MD14.

Amcanion AC: 2, 4, 5, 13, 14, 15.

Dadansoddi

Yn ystod y cyfnod monitro, mae 1 cais cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd swyddfa mawr y tu allan i'r dref a chanolfannau ardal. Rhestrir manylion y cais isod:

Rhif Cais	Math	Disgrifiad o'r Datblygiad
2019/01260/HYB	Mawr – Diwydiant/Storio/Dosbarthu (B1 (b&c), B2, B8)	DISGRIFIAD DIWYGIEDIG - Cais hybrid sy'n cynnwys: caniatâd cynllunio llawn ar gyfer dymchwel adeileddau presennol; adeiladu ffordd wasanaeth newydd, llwybr troed, gwaith draenio a pheirianneg cysylltiedig; codi crog rhwd AMG 2,500 metr sgwâr (defnydd hyblyg Dosbarth B1 a/neu Ddosbarth B2 a/neu Ddosbarth B8) gan gynnwys slab / ffedog gysylltiedig, man parcio a gwasanaethu a threfniadau draenio cysylltiedig; codi ffensys terfyn a ffens acwstig chwyth jet a chaniatâd cynllunio amlinellol (gyda'r

		holl faterion eraill wedi'u cadw) ar gyfer codi hyd at 37,500 metr sgwâr o gyfleusterau cyflogaeth gweithredol ardal ochr yr awyr AMG (Dosbarth B1 a/neu Ddosbarth B2 a/neu Ddosbarth B8) gan gynnwys slab/ffedogau cysylltiedig a mannau parcio a'r holl waith adeiladu a pheirianneg cysylltiedig.
--	--	--

Mae'r datblygiad cymeradwy yn ymwneud â chydsyniad agored ar safle cyflogaeth strategol penodedig (Polisi MG9 (3) Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan). Felly, ystyrir bod defnydd cyflogaeth mawr yn y lleoliad hwn yn briodol. O ystyried hyn, ystyrir bod polisiau perthnasol yn gweithio'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn er mwyn pennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Mae'r Cyngor wedi cyrraedd y targedau monitro ar gyfer y dangosydd craidd hwn.

Cam Gweithredu	Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMBau yn y dyfodol
-----------------------	---

Cyf 6.2		
Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn flynyddol ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau blaenaf ac eilaidd mewn canolfannau tref ac ardal.	Mae lefel y defnydd nad yw'n A1 yn 35% neu lai o fewn ffryntiadau blaenaf a 50% neu lai o fewn ffryntiadau eilaidd yn unol â Pholisi MG14.	1 neu fwy o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 yn cael caniatâd cynllunio lle mae'r ganolfan tref ac ardal ar neu'n uwch na 35% o fewn ffryntiadau blaenaf a 50% mewn ffryntiadau eilaidd.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 2: 2020 - 2021
<p>Cymeradwywyd 2 gais cynllunio nad ydynt yn A1 mewn ffryntiad blaenaf yng nghanolfan ardal y Bont-faen. Fodd bynnag, nid aethpwyd dros y targed monitro.</p> <p>Mae 1 cais cynllunio nad yw'n A1 wedi'i gymeradwyo yn y ffryntiad blaenaf yn Heol Holltwn, y Barri sy'n mynd dros y targed monitro o 35% o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau blaenaf gan 4%.</p> <p>Cymeradwywyd 1 cais cynllunio nad yw'n A1 mewn ffryntiad eilaidd yn Stryd Fawr / Broad Street, canolfan ardal y Barri, sy'n mynd dros y targed monitro o 50% o ddefnyddiau</p>	<p>Cymeradwywyd 1 cais cynllunio nad yw'n A1 mewn ffryntiad eilaidd yng nghanolfan ardal y Bont-faen, sy'n mynd dros y targed monitro o 50% o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 16.7%.</p> <p>Mae 2 gais cynllunio nad ydynt yn A1 wedi'u cymeradwyo yn y ffryntiad eilaidd yn Heol Holltwn, y Barri, sy'n mynd dros y targed monitro o 50% o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 15.6%.</p> <p>Cymeradwywyd 2 cais cynllunio nad yw'n A1 mewn ffryntiad eilaidd yn Stryd Fawr / Broad Street,</p>	<p>Cymeradwywyd 1 cais cynllunio nad yw'n A1 mewn prif ffryntiad yng nghanolfan ardal y Bont-faen, sy'n mynd dros y targed monitro o 35% o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 mewn prif ffryntiadau.</p> <p>Mae 1 cais cynllunio nad yw'n A1 wedi'i gymeradwyo yn y prif ffryntiad yn Heol Holltwn, y Barri sy'n fwy na'r targed monitro o 35% nad yw'n ddefnydd A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 3%. Mae 1 cais cynllunio nad yw'n A1 wedi'i gymeradwyo yn y ffryntiad eilaidd yn Heol Holltwn, y Barri sy'n fwy na'r targed monitro o 50% nad yw'n ddefnydd A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 12.3%.</p>

nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 6.8%.	canolfan ardal y Barri, sy'n mynd dros y targed monitro o 50% o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ffryntiadau eilaidd gan 9.3%. Cymeradwywyd 2 gais cynllunio nad ydynt yn A1 mewn ffryntiad eilaidd yng nghanolfan ardal Penarth. Fodd bynnag, nid aethpwyd dros y targed monitro	Cymeradwywyd 2 gais cynllunio nad ydynt yn A1 mewn ffryntiad eilaidd yng nghanolfan ardal Penarth. Fodd bynnag, nid aethpwyd dros y targed monitro.
--	--	---

Polisiau CDLI Perthnasol

Polisiau Strategol: SP1, SP6.

Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG14, MD1, MD5.

Amcanion SA: 2, 4, 5, 14.

Dadansoddi

	2019		2020		2021	
	An-A1 mewn Ffryntiad Blaenaf (%)	An-A1 mewn Ffryntiad Eilaidd (%)	An-A1 mewn Ffryntiad Blaenaf (%)	An-A1 mewn Ffryntiad Eilaidd (%)	An-A1 mewn Ffryntiad Blaenaf (%)	An-A1 mewn Ffryntiad Eilaidd (%)
Canolfan Tref						
Heol Holltwn	39.0	63.9	38.0	62.3	38.0	62.3
Canolfannau Rhanbarth						
Y Bont-faen	29.2	66.7	28.8	57.6	31.3	57.1
Stryd Fawr/Broad St	46.2	56.8	48.7	52.3	50.0	55.6
Llanilltud Fawr	39.1	54.3	39.1	54.3	34.8	54.3
Penarth	37.8	43.0	38.9	44.3	37.8	42.7

Nodwch fod gwall wrth gofnodi'r ffigurau yn AMB 2 wedi arwain at gofnodion dyblyg ar gyfer colofnau 2019 a 2020. Mae hyn wedi'i ddiwygio ar gyfer AMB 3 ac fe'i hadlewyrchir yn y tabl uchod.

Rhif Cais	Lleoliad	Ffryntiad	Cymeradwywyd dan GDD	Disgrifiad
-----------	----------	-----------	----------------------	------------

2020/00079/FUL	Penarth	Eilradd	Sui Generis	Newid rhan o'r defnydd o'r llawr cyntaf o swyddfeydd (Dosbarth B1 (a)) i barlwr tatws (Sui Generis)
2019/01140/FUL	Heol Holltwn	Cynradd	A1/A2	Newid defnydd swyddfeydd presennol i greu uned siop fasnachol newydd a phum fflat newydd
2020/00667/FUL	Penarth	Eilradd	Sui Generis	Newid defnydd, er mwyn caniatáu ymestyn y salon harddwch sy'n bodoli eisoes. Llawr gwaelod o A1 i sui generis (ôl-weithredol). Fflat llawr cyntaf o breswyl i sui generis
2020/00558/FUL	Y Bont-faen	Cynradd	A3	Newid defnydd o A1 (manwerthu) i A3 (Bwyd a Diod)
2020/00761/FUL	Heol Holltwn	Eilradd	B1	Adnewyddu a datblygu Canolfan Iechyd bresennol Amy Evans yn adeilad swyddfa â gwasanaeth. Newid defnydd D1 - B1. Parcio ceir a thirlunio allanol

Ffynhonnell: Data Cynllunio Bro Morgannwg (2021)

Mae'r rhan fwyaf o Ganolfannau Manwerthu Tref a Dosbarth naill ai wedi gweld gostyngiad yn y defnydd nad yw'n A1 o fewn eu Ffryntiadau Cynradd ac Eilradd neu wedi aros ar yr un lefel ers y cyfnod AMB blaenorol.

Fodd bynnag, mae Canolfannau Manwerthu Ardal y Bont-faen a'r Stryd Fawr / Broad Street wedi gweld cynnydd mewn defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau A1 o fewn y prif ffryntiad. Gellir priodoli'r cynnydd yng Nghanolfan Manwerthu'r Bont-faen i gais 2020/00558/FUL a gynyddodd faint o ddefnyddiau nad ydynt yn rhai A1 o fewn y ffryntiad sylfaenol gan 2.1%. Fodd bynnag, mae'r prif ffryntiad yn parhau i fod yn is na'r sbardun 35% o ddefnyddiau manwerthu nad ydynt yn A1 ac mae'n cydymffurfio â Pholisi MG14.

Mae'r Stryd Fawr / Broad Street wedi gweld cynnydd o 3.8% o'r defnyddiau manwerthu nad ydynt yn rhai A1 o fewn y prif ffryntiad, fodd bynnag, nid oes cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer newid defnydd o fewn y cyfnod AMB. Gellir priodoli'r newid hwn i uned A2 yn y ffryntiad cynradd sydd wedi'i hisrannu'n ddwy uned fanwerthu gan gynyddu'r unedau cyffredinol o fewn y ffryntiad sylfaenol. Er bod yr uned newydd yn ddefnydd A1 mae'r unedau cyffredinol yn y ffryntiad cynradd wedi newid gan effeithio ar y ffigur canran.

Nodir bod y man cychwyn ar gyfer ffryntiadau cynradd wedi'i daro yn Heol Holltwn, Stryd Fawr / Broad Street, Penarth. O ran y sbardun ar gyfer ffryntiadau eilaidd, fe'i trawyd yn Heol Holltwn, y Bont-faen, y Stryd Fawr / Broad Street a Llanilltud Fawr. Fodd bynnag, ac eithrio'r Stryd Fawr / Broad Street, mae'r canolfannau sy'n weddill wedi lleihau faint o ddefnyddiau nad ydynt yn rhai A1 neu wedi aros yr un fath. At hynny, bu newid yng nghyfeiriad polisi a ddylanwadwyd gan effeithiau pandemig Covid-19. Adlewyrchir hyn yn Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio'n Cyflawni Dyfodol Gwydn a Mwy Disglair, Creu Lleoedd ac Adfer Covid-19 (2020) sy'n nodi camau gweithredu i gynorthwyo adferiad Covid-19 ac ardaloedd y mae'n rhaid eu hailystyried. Caiff hyn ei ddatblygu mewn adolygiadau o Bolisi Cynllunio Cymru'n y dyfodol gan alluogi Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwaith hwn ymhellach.

Mewn perthynas â'r sector manwerthu, Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19, nodir, "Mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd defnyddiau manwerthu traddodiadol mor gyffredin ac y bydd y galw am ofod manwerthu newydd yn isel iawn yn

y dyfodol rhagweladwy, felly bydd angen adolygu ardaloedd manwerthu sylfaenol ar frys. Rhaid i hyn fod yn realistig ac ni wneir hynny gan ddisgwyl y bydd meddianwyr manwerthu yn dychwelyd yn y niferoedd a welwyd cyn y pandemig. Dylid herio polisiâu afresymol ac anhyblyg drwy broses y cynllun datblygu, gan y bydd angen llawer mwy o feddwl creadigol i ail-ddychmygu ac ail-bwrpasu'r meysydd hyn." (t.18, 2020).

O ganlyniad, oherwydd y cyd-destun cenedlaethol presennol ac effeithiau parhaus Covid-19 ar y sector manwerthu, ystyrir ei bod yn rhesymol ac yn briodol i benderfyniadau Rheoli Datblygu fabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â chynigion newid defnydd lle ystyrir y byddai'r cynnig o fudd i'r ganolfan ac yn cyfrannu at fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y ganolfan.

Yng ngoleuni'r data monitro a'r ffaith bod y sbardun wedi'i daro mewn sawl achos, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn pennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn. Fodd bynnag, roedd amgylchiadau esgusodol a thystiolaeth yn cael eu darparu o dan bob cais a oedd yn haeddu eu cymeradwyo, megis swyddi gwag estynedig, adroddiadau marchnata ac ati. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo dull mwy hyblyg o ddefnyddio defnyddiau anfasnachol mewn canolfannau i sicrhau y gallant ymateb i effeithiau Covid-19. Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes yn yr AMB diwethaf, mae'r Cyngor wrthi'n paratoi CCA newydd ar fanwerthu a ddylai helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn y byrdymor

Cam Gweithredu	Cyngor i gwblhau a mabwysiadu CCA newydd ar fanwerthu a pharhau i fonitro dangosyddion mewn AMBau yn y dyfodol.
-----------------------	--

Cyf 6.3

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn flynyddol ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn A1 mewn canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth.	Mae lefel y defnydd nad yw'n A1 mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn 50% neu lai yn unol â Pholisi MG15.	Mae 1 neu fwy o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 yn cael caniatâd cynllunio lle mae'r ganolfan lleol a chymdogaeth ar 50% neu fwy.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Cymeradwywyd 7 cais cynllunio a arweiniodd at gollu unedau manwerthu A1 mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn ystod y cyfnod monitro fel y nodir isod. O'r rhain, arweiniodd 5 cais at gynnydd mewn defnyddiau nad ydynt yn A1 uwchlaw'r trothwy o 50% yn y canolfannau canlynol: Pentref Dinas Powys. Park Road, Y Barri. Vere Street, Y Barri.	Cymeradwywyd 2 gais cynllunio a arweiniodd at gollu unedau manwerthu A1 mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn ystod y cyfnod monitro fel y nodir isod. O'r rhain, arweiniodd 1 cais at gynnydd mewn defnyddiau nad ydynt yn A1 uwchlaw'r trothwy o 50% yn y ganolfan ganlynol: Adenfield Way	Cymeradwywyd 1 cais cynllunio a arweiniodd at gollu unedau manwerthu A1 mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn ystod y cyfnod monitro fel y nodir isod. Ni arweiniodd y cais at gynnydd mewn defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 uwchlaw'r trothwy o 50% yn y ganolfan.

Polisiâu CDLI Perthnasol

Polisiâu Strategol: SP1, SP6.

Polisiâu Rheoli Twf: MG12, MG15, MD1, MD5.

Amcanion SA: 2, 4, 5, 14.

Dadansoddi

Canran y defnyddiau A1 ac an-A1 yn y canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth:

Tref	Unedau a Feddiannir	Unedau Gwag	A1 yn y Ganolfan	(%)	An-A1 yn y Ganolfan	(%)
Canolfannau Lleol						
Barry Road, Tregatwg	7	2	5	55.6	4	44.4
Ffordd Caerdydd, Dinas Powys	13	0	4	30.8	9	69.2
Cornerswell Road	23	0	13	56.5	10	43.5
Pentref Dinas Powys	18	1	6	31.6	13	68.4
Prif Stryd, Tregatwg	14	2	13	81.3	3	18.7
Park Crescent, Y Barri	32	5	23	62.2	14	37.8
Y Rhws, Fontygary Road	13	0	7	53.8	6	46.2
Sain Tathan, Y Sgwâr	11	1	7	58.3	5	41.7
Heol Holltwn Uchaf	28	4	18	56.3	14	43.7
Vere Street, Tregatwg	8	5	7	53.9	6	46.1
Canolfannau Cymdogaeth						
Adenfield Way (Dymchwelwyd)	0	0	0	0	0	0
Trebefered	7	0	4	57.1	3	42.9
Bron y Môr, Y Barri	5	0	1	20	4	80
Camms Corner, Dinas Powys	9	0	6	66.7	3	33.3

Castle Court, Dinas Powys	7	1	5	62.5	3	37.5
Crawshay Drive, Llanilltud Fawr	1	1	2	100	0	0
Canolfan Cwm Talwg, Y Barri	8	1	4	44.4	5	55.6
Park Road	5	0	1	20	4	80
Pill Street	3	1	3	75	1	25
Skomer Road, Gibbonsdown	4	0	1	25	3	75
Tennyson Road	4	2	4	66.7	2	33.3

Ffynhonnell: Data Cynllunio Bro Morgannwg (2021)

Ceisiadau sy'n arwain at golli uned A1 mewn canolfan fanwerthu leol / cymdogaeth:

Rhif Cais	Lleoliad	Canolfan Leol / Cymdogaeth	Disgrifiad
2020/00199/FUL	14, Park Crescent, Y Barri	Park Crescent	Newid defnydd o siop A1 bresennol i siop goffi A3 a chaffi, 1/2 gan gynnwys gwerthu a defnyddio alcohol ar y safle.

Arweiniodd y cais cynllunio a gymeradwywyd at golli uned A1 mewn canolfan fanwerthu leol a nodwyd o'r enw Park Crescent. Arweiniodd y cynnig hwn at newid defnydd uned A1 bresennol i ddefnydd A3. Fodd bynnag, nid oedd y cynnig yn arwain at y ganolfan leol yn taro'r sbardun gyda defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 yn aros yn is na 50%.

Nodir bod nifer o'r canolfannau wedi gweld newid defnydd o ddefnydd A1 i ddefnydd nad yw'n A1 ond nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio. Y rheswm am hyn yw bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diwygiadau dros dro i Gynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) i roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer newid defnydd yng nghanol trefi. Mae'r newid hwn mewn deddfwriaeth yn caniatáu newid defnydd dros dro o A1 i A2, A3, B1, D1 a D2 mewn canolfannau manwerthu am gyfnod o 6 mis hyd at 29 Ebrill 2022 heb fod angen caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI).

Fodd bynnag, yn dilyn yr AMB blaenorol, ystyrir bod angen eglurder pellach ar Bolisiau MG14 ac MG15 i sicrhau bod ymgeiswyr a swyddogion rheoli datblygu yn dehongli'r polisiau'n gywir yng ngoleuni canllawiau polisi cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n drafftio CCA manwerthu newydd i fynd i'r afael â'r mater a nodwyd gan yr AMB blaenorol. Mewn perthynas â'r cais a amlygwyd uchod, fe'i cymeradwywyd yn unol ag MG15 a defnyddiodd Swyddogion Rheoli Datblygu y polisi CDLI yn y modd cywir. Felly, ar wahân i fabwysiadu'r CCA Manwerthu newydd, ni ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Cam Gweithredu	Cyngor i fabwysiadu CCA newydd ar fanwerthu a pharhau i fonitro dangosyddion mewn AMBau yn y dyfodol.
-----------------------	--

Cyf 6.4							
Dangosydd Monitro Blynyddol		Targed Monitro			Sbardun Monitro		
LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag mewn ffryntiadau siopa blaenaf o fewn ffiniau'r canolfannau tref ac ardal.		Gostyngiad yn y cyfraddau eiddo gwag mewn ffryntiadau siopa blaenaf o fewn canolfannau tref ac ardal.			Cynnydd yn y cyfraddau eiddo gwag am 2 flynedd yn olynol yn ffryntiadau siopa blaenaf canolfannau tref ac ardal.		
Perfformiad							
AMB 1: 2018 - 2019		AMB 2: 2019 - 2020			AMB 3: 2020 - 2021		
Ac eithrio Penarth, sydd wedi gweld gostyngiad o 2.7% mewn cyfraddau eiddo gwag ers 2018, mae pob un o'r canolfannau manwerthu tref ac ardal eraill wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau eiddo gwag yn eu ffryntiadau blaenaf rhwng 2018 a 2019. Fodd bynnag, nid aed dros y targed monitro dros ddwy flynedd yn olynol.		Ac eithrio Stryd Fawr / Broad St sydd wedi gweld cynnydd o 5.1% yn y cyfraddau eiddo gwag, mae pob un o'r canolfannau tref ac ardal eraill wedi cynnal cyfradd eiddo gwag y flwyddyn flaenorol yn eu ffryntiadau blaenaf rhwng 2019 a 2020. Fodd bynnag, nid aed dros y targed monitro dros ddwy flynedd yn olynol.			Mae cyfraddau swyddi gwag ym mhob canolfan wedi gostwng ers y cyfnod AMB diwethaf o fewn y prif feysydd.		
Polisiâu CDLI Perthnasol							
Polisiâu Strategol: SP1, SP6							
Rheoli Twf: MG12, MG14, MD1, MD5.							
Amcanion SA: 2, 4, 5, 14.							
Dadansoddi							
	2019	2020	2021				
	Cyfradd Unedau Gwag (%)	Cyfradd Unedau Gwag (%)	Cyfanswm yr Unedau	Unedau a Feddiannir	Unedau Gwag	Cyfradd Meddianneth (%)	Cyfradd Unedau Gwag (%)
Canolfan Tref							
Heol Holltwn, y Barri	17%	17%	100	85	15	85%	15%
Canolfan Ardal							
Y Bont-faen	9.2%	12.12%	64	59	5	92.2%	7.8%
Stryd Fawr/Broad St	0%	5.13%	40	40	0	100%	0%

Llanilltud Fawr	4.4%	4.4%	23	22	1	95.7%	4.3%
Penarth	2.7%	2.8%	37	37	0	100%	0%

Ffynhonnell: Data Cynllunio Bro Morgannwg 2021 - Nodwch fod gwall wrth gofnodi'r ffigurau yn AMB 2 wedi arwain at gofnodion dyblyg ar gyfer colofnau 2019 a 2020. Mae hyn wedi'i ddiwygio ar gyfer AMB 3 ac fe'i hadlewyrchir yn y tabl uchod.

Mae'r targed monitro wedi'i gyrraedd ym mhob canol tref a dosbarth. Felly, nid yw'r sbardun monitro ar gyfer cynnydd mewn cyfraddau swyddi gwag dros 2 flynedd yn olynol wedi'i fodloni. Mae'r gyfradd eiddo gwag yn y canolfannau wedi gostwng o fewn ffyrntiadau siopa sylfaenol a allai ddangos adferiad o'r AMB blaenorol. Fodd bynnag, fel arfer mae elfen o newid yn y canolfannau fel y gwelir mewn cyfraddau eiddo gwag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'n ymddangos bod y defnydd cynyddol yn dangos bod yr hyblygrwydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o ran defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 mewn canolfannau manwerthu yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau eiddo gwag yn y canolfannau, ond ystyrir bod angen monitro pellach er mwyn canfod a fydd y duedd hon yn parhau.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn AMBau yn y dyfodol. Fodd bynnag o ystyried y data monitro uchod, bwriad y Cyngor yw mabwysiadu CCA manwerthu newydd i fynd i'r afael â'r mater polisi hwn yn y byrdymor.

Cam Gweithredu

Cyngor i fabwysiadu CCA newydd ar fanwerthu a pharhau i fonitro dangosyddion mewn AMBau yn y dyfodol.

Cyf 6.5

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag o fewn ffiniau canolfannau lleol ac ardal	Gostyngiad yn y cyfraddau eiddo gwag mewn canolfannau lleol ac ardal.	Cynnydd yn y cyfraddau eiddo gwag wedi'i gofnodi am 2 flynedd yn olynol mewn canolfannau lleol ac ardal.

Perfformiad

AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Nid oes unrhyw ganolfannau manwerthu lleol neu gymdogaeth wedi profi cynnydd mewn cyfraddau eiddo gwag am ddwy flynedd yn olynol.	Mae un ganolfan leol (Park Crescent) wedi profi cynnydd mewn cyfraddau eiddo gwag am ddwy flynedd yn olynol.	Nid oes unrhyw ganolfannau manwerthu lleol neu gymdogaeth wedi profi cynnydd mewn cyfraddau eiddo gwag am ddwy flynedd yn olynol.

Polisiau CDLI Perthnasol

Polisiau Strategol: SP1, SP6.

Rheoli Twf: MG12, MG15, MD1, MD5.

Amcanion SA: 2, 4, 5, 14.

Dadansoddi

Tref	Cyfradd Unedau Gwag 2019 (%)	Cyfradd Unedau Gwag 2020 (%)	Cyfradd Unedau Gwag 2021 (%)	Unedau a Feddiannir	Unedau Gwag	Cyfanswm yr Unedau
Canolfannau Lleol						
Barry Road, Tregatwg	22.2	22.2	22.2	7	2	9
Ffordd Caerdydd, Dinas Powys	0	0	0	13	0	13
Cornerswell Road	0	0	0	23	0	23
Pentref Dinas Powys	10.0	5.9	5.3	18	1	19
Prif Stryd, Tregatwg	16.7	16.7	12.5	14	2	16
Park Crescent	16.2	18.9	13.5	32	5	37
Y Rhws, Fontygary Road	0	0	0	13	0	13
Sain Tathan, Y Sgwâr	0	8.3	8.3	11	1	12
Heol Holltwn Uchaf	9.09	9.09	12.5	28	4	32
Vere Street, Tregatwg	21.4	38.5	38.5	8	5	13
Canolfannau Cymdogaeth	Cyfradd Unedau Gwag 2019 (%)	Cyfradd Unedau Gwag 2020 (%)	Cyfradd Unedau Gwag 2021 (%)	Unedau a Feddiannir	Unedau Gwag	Cyfanswm yr Unedau
Adenfield Way, Y Rhws	100	Dymchwelwyd	-	-	-	-
Trebefered	0	0	0	7	0	7
Bron y Môr, Y Barri	20.0	20.0	0	5	0	5
Camms Corner, Dinas Powys	0	0	0	9	0	9
Castle Court, Dinas Powys	12.5	12.5	12.5	7	1	8

Crawshay Drive, Llanilltud Fawr	50.0	50.0	50.0	1	1	2
Canolfan Cwm Talwg, Y Barri	11.1	11.1	11.1	8	1	9
Park Road, Y Barri	0	0	0	5	0	5
Pill Street	25.0	25.0	25	3	1	4
Skomer Road, Gibbonsdown	0	0	0	4	0	4
Tennyson Road, Penarth	33.3	33.3	33.3	4	2	6

Ffynhonnell: Data Cynllunio Bro Morgannwg (2021)

Mae'r data monitro yn dangos darlun cymysg ar draws y gwahanol ganolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth ym Mro Morgannwg. Er nad oes unrhyw ganolfannau wedi gweld cynnydd pellach mewn cyfraddau swyddi gwag ac mae sawl canolfan wedi lleihau'r lefelau eiddo gwag cyffredinol, mae nifer o ganolfannau o hyd gyda chyfradd eiddo gwag uchel. O ystyried yr hinsawdd fanwerthu anodd bresennol ledled y DU, yn enwedig i fanwerthwyr bach lleol, nid ystyrir bod y data monitro yn destun pryder ar hyn o bryd. Nid ystyrir bod hyn o ganlyniad i bolisiau'r CDLI ond mae'n adlewyrchu'r darlun manwerthu cenedlaethol.

Monitro Perfformiad Polisi

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn AMBau yn y dyfodol ac nid oes rheswm dros adolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag o ystyried y data monitro uchod, bwriad y Cyngor yw mabwysiadu CCA manwerthu newydd i helpu i fynd i'r afael â'r mater polisi hwn yn y byrdymor.

Argymhelliad:

Cyngor i fabwysiadu CCA newydd ar fanwerthu a pharhau i fonitro dangosyddion mewn AMBau yn y dyfodol.

Cam Gweithredu	Mabwysiadu CCA Manwerthu a pharhau i fonitro canolfannau manwerthu lleol a chymdogaethau
-----------------------	---

Cyf 6.6 (Targed Monitro Newydd sy'n deillio o ddangosyddion AMB 2019 6.2, 6.3, 6.4 a 6.5)

Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
LLEOL: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â Manwerthu.	Llunio Canllaw Cynllunio Atodol Manwerthu erbyn 31 Hydref 2020.	Methiant i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol erbyn 31 Hydref 2020.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
Dangosydd Monitro newydd yn deillio o AMB 2019.	Nid yw'r targed monitro a nodwyd ar gyfer 2020 wedi'i gyrraedd.	CCA manwerthu newydd wedi'i ddrafftio. Rhagwelir y bydd yn destun ymgynghoriad yn yr Hydref

		ac yn cael ei fabwysiadu ddiwedd 2021.
Polisiau CDLI Perthnasol		
Polisiau Strategol: SP1, SP6		
Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG14, MG15, MD1, MD5.		
Amcanion SA: 2, 4, 5, 14.		
Dadansoddi		
<p>Argymhellodd AMB 2019 y dylid paratoi CCA Manwerthu newydd i ddarparu canllawiau ychwanegol i gefnogi gweithredu polisiau MG14 ac MG15 mewn perthynas â chynigion newid defnydd nad ydynt yn A1. Argymhellwyd hyn ochr yn ochr â monitro dangosyddion 6.2, 6.3, 6.4 a 6.5 ymhellach mewn perthynas â chyfraddau eiddo gwag a lefelau defnydd nad yw'n A1 mewn canolfannau manwerthu presennol. Bwriedir i'r CCA newydd ddarparu canllawiau pellach ar faterion polisi manwerthu a dylunio lleol eraill, er enghraifft, mewn perthynas â throsi lloiau siopau. Ers AMB 2019, mae pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi effeithio'n andwyol ar y sector manwerthu. Er bod manwerthu anhanfodol a gwasanaethau eraill bellach wedi aildechrau, parheir i fonitro effaith y pandemig Covid-19 ar ganolfannau manwerthu yn ofalus. Mae'r CCA Manwerthu drafft newydd yn myfyrio ar y materion hyn a, lle y bo'n briodol, yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn yn unol â diweddariadau polisi cenedlaethol.</p>		
Cam Gweithredu	<p>Ymgynghori a mabwysiadu CCA Manwerthu newydd sy'n adlewyrchu'r data monitro diweddaraf a pholisi cenedlaethol ar gyfer canolfannau manwerthu a, lle y bo'n briodol, yn ymateb i unrhyw faterion lleol a nodwyd ers dechrau'r pandemig Covid-19.</p>	

7. TAI

Newidiadau Cyd-destunol: Cyfeiriwch at adran 3 o'r AMB hwn

Sylwer:

Cyflwynwyd y dangosydd hwn yn yr ail AMB yn dilyn dirymu Nodyn Cyngor Technegol 1 Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai a'r diwygiadau i adran 'darparu tai' Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r dangosydd monitro a'r data yn cyd-fynd â'r canllawiau a geir yn Argraffiad 3 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), sy'n nodi y dylai ACLlau sydd â CDLI mabwysiedig, cyn cyhoeddi'r LICD, fonitro'r modd y darperir tai yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol. Dylid darparu'r data yn rhifiadol ac o ran canran (plws/minws x %).

Cyf 7.1.1


Dangosydd Monitro Blynyddol	Targed Monitro	Sbardun Monitro
Lefel flynyddol y tai a gwblheir yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol (GBC).	Darparu o leiaf y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol o 630.66 o anheddau (Yn 2021 y targed fyddai 6306).	Dim sbardun wedi'i osod.
Perfformiad		
AMB 1: 2018 - 2019	AMB 2: 2019 - 2020	AMB 3: 2020 - 2021
